



**Law  
Commission**  
Reforming the law

(Com y Gyf Rhif 377)

# **Trydedd Raglen ar Ddeg ar gyfer Diwygio'r Gyfraith**

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag adran 3(2) Deddf Comisiynau'r Gyfraith 1965

Gorchmynnwyd ei hargraffu gan Dŷ'r Cyffredin ar 11 o Ragfyr 2017

HC 640



© Crown copyright 2017

Mae'r ddogfen yma wedi ei drwyddedi o dan termau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0, heblaw'r llefydd sydd yn nodi fel arall. I weld y drwydded yma, ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](https://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3)

Lle adnabyddir gwybodaeth hawlfraint trydedd partiau, dylech gael caniatâd oddi wrth y rhai sydd a'r hawlfraintiau perthnasol.

Mae'r ddogfen yma ar gael at <https://www.gov.uk/government/publications>

Dylid anfon unrhyw gwestiynau ynghylch y ddogfen yma i ni at [enquiries@lawcommission.gov.uk](mailto:enquiries@lawcommission.gov.uk)

ISBN 978-1-5286-0146-7

CCS1217560098            12/17

Argraffwyd ar bapur sydd yn cynnwys o leiaf 75% o ffeibr wedi a ailgylchir.

Argraffwyd yn y DU gan Grwp APS, ar ran Rheolwr Swyddfa Ysgrifennu ei Mawrhydedd.

## COMISIWN Y GYFRAITH

Sefydlwyd Comisiwn y Gyfraith gan Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 er mwyn hybu diwygio'r gyfraith.

Comisiynwyr y Gyfraith yw:

Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Ustus Bean, Cadeirydd  
Yr Athro Nick Hopkins  
Yr Athro David Ormerod QC  
Nicholas Paines QC  
Stephen Lewis

Prif Weithredwr Comisiwn y Gyfraith yw Phillip Golding.

Lleolir Comisiwn y Gyfraith yn 1st Floor, Tower, 52 Queen Anne's Gate, Llundain, SW1H 9AG

Cytunwyd ar delerau'r adroddiad hwn ar yr 8 o Dachwedd 2017.

Mae testun yr adroddiad hwn i'w weld ar wefan Comisiwn y Gyfraith ar [www.lawcom.gov.uk](http://www.lawcom.gov.uk).

# Cynnwys

<b>RHAN 1 - CYFLWYNIAD</b>	<b>6</b>
Cefndir	6
Ymgynghori	6
Cymru	8
Meini Prawf Dethol Prosiectau Comisiwn y Gyfraith	9
Prosiectau a Gadarnhawyd ar gyfer y Drydedd Raglen ar Ddeg	10
Gwaith Parhaus i Ddiwygio'r Gyfraith a Phrosiectau Pellach	12
Gweithio gyda Chomisiynau'r Gyfraith Eraill	12
<b>RHAN 2 - PROSIECTAU'R TRYDEDD RAGLEN AR DDEG</b>	<b>13</b>
Cyflwyniad	13
Fframwaith Modern ar gyfer Gwaredu'r Meirw	13
Adolygiad Gweinyddol	13
Cerbydau Awtomatig	14
Llofnodion electronig	15
Strwythurau Gwrando'r Gyfraith Cyflogaeth	15
Gwarannau Canolraddol	16
Moderneiddio Cyfraith Ymddiriedolaeth ar gyfer Prydain Fyd-eang: Astudiaeth Gwmpasu	17
Casgliadau Amgueddfeydd	17
Tir Cofrestredig ac Atebolrwydd Atgyweirio Cangell	18
Lesddaliad Preswyl	18
Symleiddio Rheolau Mewnfudo	19
Contractau Call	20
Geni babi ar ran rhywun arall	20
Telerau Annheg mewn Lesddaliad Preswyl	22
<b>RHAN 3 - PROSIECTAU PARHAUS</b>	<b>23</b>
Cyflwyniad	23
Atal Gwyngalchu Arian	23
Atafael dan Ddeddf Enillion Troseddau 2002	23
Cyfraith Etholiadol	24

O Filiau Gwerthiant i Forgeisi Nwyddau	24
Yswirio Diddordebau	25
Cofrestru Tir	25
Camymddwyn mewn Swydd Gyhoeddus	25
Cyfraith Cynllunio yng Nghymru	26
Diogelu Data Swyddogol	26
Gwarantau Chwilio	27
Dedfrydu	27
Ewyllysiau	27
<b>RHAN 4 - PROSIECTAU ARFAETHEDIG PELLACH</b>	<b>29</b>
Cyflwyniad	29
Tenantiaethau Amaethyddol	29
Cofrestru Genedigaeth	29
Lesddaliad Masnachol	30
Datgeliad Cofnodion Troseddol	31
Tystiolaeth a Thechnoleg Newydd (Tystiolaeth Camerâu Corff)	31
Materion yn y Ddeddf Crwneriaid	31
Symud Tŷ	32
Cyfathrebu Ar-lein	32
Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed	33
Hawliau Tramwy Cyhoeddus	34
Cywiro Camgymeriadau mewn Gweithredoedd Pensiwn	34
Rheoleiddio Mentrau Cymdeithasol	35
Adolygu Pwerau (Adran Droseddol) y Llys Apêl	35
Adolygu Rhan 3 Deddf Plant 1989	36
Gwarannau dros Hawliau Eiddo Deallusol a Datgeliad Corfforaethol o Hawliau Eiddo Deallusol	36
Gweithdrefnau Dyfarniad Diannod yn y Broses Gyflafareddu	37
Cyflafareddu'r Gyfraith Ymddiriedolaeth	37
Amryw Ddiwygiad i'r Gyfraith Trosedd	38
Priodasau	39
<b>ATODIAD 1 - RHESTR O YMGYNGOREION</b>	<b>41</b>

# TRYDEDD RAGLEN AR DDEG AR GYFER DIWYGIO'R GYFRAITH

*I'r Gwir Anrhydeddus David Lidington AS, yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd  
Gwladol Dros Gyfiawnder*

## RHAN 1 - CYFLWYNIAD

### CEFNDIR

- 1.1 Sefydlwyd Comisiwn y Gyfraith gan Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 er mwyn hybu diwygio'r gyfraith. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiwn y Gyfraith dderbyn ac ystyried cynigion ar gyfer diwygio'r gyfraith. Mae'n rhaid i Gomisiwn y Gyfraith hefyd baratoi a chyflwyno rhaglenni cyfnodol i'r Arglwydd Ganghellor, sy'n archwilio gwahanol ganghennau o'r gyfraith gyda golwg ar ddiwygio.<sup>1</sup>
- 1.2 Bydd y 13<sup>eg</sup> Raglen o Ddiwygio'r Gyfraith hon yn rhedeg o 13 o Ragfyr 2017. Rydym yn gofyn am gymeradwyaeth yr Arglwydd Ganghellor ar gyfer y prosiectau a restrir yn Rhan 2 y ddogfen hon, yn unol ag adran 3(1)(b) Deddf 1965.

### YMGYNGHORI

- 1.3 Mae Comisiwn y Gyfraith yn ymgynghori'n eang wrth lunio rhaglenni diwygio'r gyfraith, er mwyn sicrhau bod ein gwaith mor berthnasol a gwybodus ag y bo modd. Lansiodd yr ymgynghoriad ar gyfer y 13<sup>eg</sup> Raglen ar 11 Gorffennaf 2016 gyda digwyddiad yn Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig. Mynychwyd y digwyddiad hwn gan seneddwragedd o ddau Dŷ'r Senedd, aelodau o'r uwch farnwriaeth ac ymarferwyr cyfreithiol blaenllaw, yn ogystal â chynrychiolwyr o'r sectorau preifat, cyhoeddus, y trydydd sector a'r byd academiaidd. Cynhaliwyd ail ddigwyddiad lansio yn Ysgol y Gyfraith Caerdydd ar Orffennaf 12. Mynychwyd y digwyddiad hwn gan gynrychiolwyr o'r proffesiwn cyfreithiol, academia, a'r sectorau preifat, cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru. Yna cynhaliwyd yr ymgynghoriad tan 31 Hydref.
- 1.4 Roedd ein hymgyngoriad yn ystyried pa feysydd o'r gyfraith oedd angen eu diwygio ac yn egluro'r meini prawf a ddefnyddir wrth ddewis prosiectau (gweler isod). Yn ogystal â gofyn y cwestiwn agored hwnnw, gwnaethom gyhoeddi dogfen fer a oedd yn amlinellu rhai o feysydd y gyfraith a fyddai o bosib yn buddio o ddiwygio. Nodwyd y prosiectau posib hyn yn dilyn trafodaethau'n fewnol yn ogystal â thrafodaethau â rhanddeiliaid, ac yna gwahoddwyd ymgynghorwyr i wneud sylwadau ar gryfderau'r prosiectau. Efallai'n addas ar gyfer 13<sup>eg</sup> Raglen, fe wnaethom awgrymu tair ar ddeg o feysydd gwaith posib:

---

<sup>1</sup> Deddf Comisiynau'r Gyfraith 1965, p 3(1)(a) a (b).

- (1) Cyflafareddu
  - (2) Dyletswyddau'r banciau i gwsmeriaid
  - (3) Codeiddio'r gyfraith yng Nghymru
  - (4) Atafaelu
  - (5) Ymchwiliadau
  - (6) Cyfraith Lesddaliad
  - (7) Safonau deddfwriaethol i Gymru
  - (8) Cyfathrebu ar-lein
  - (9) Adolygu gofal cymdeithasol i blant
  - (10) Diddymiadau cyfraith statud
  - (11) Rhesymoli
  - (12) Geni babi ar ran rhywun arall
  - (13) Priodasau
- 1.5 Roedd mwy na 600 o'r ymatebion i'r papur ymgynghori a dderbynion yn cynnwys sylwadau ar y prosiectau awgrymedig hyn, ac mae dau ohonynt wedi'u cynnwys yn y Rhaglen derfynol.
- 1.6 Dosbarthwyd gwybodaeth ar ymgynghoriad y 13<sup>ed</sup> Raglen i gymdeithasau proffesiynol, grwpiau academaidd cyfreithiol, sefydliadau'r sector cyhoeddus, a sefydliadau aelodau ac ambarél yn y sectorau preifat, cyhoeddus a'r trydydd sector. Fe wnaeth timau diwygio'r gyfraith hefyd hysbysu eu cysylltiadau am y cyfle i gyflwyno eu cynigion. Fe wnaeth y Comisiwn gyhoeddi'r manylion yn fwy eang trwy erthyglau yng nghyfryngau'r sector cyfreithiol a'r trydydd sector, yn ogystal â'u cyhoeddi ar ei wefan a'i gyfrif Twitter.
- 1.7 Yn ystod y cyfnod ymgynghori, bu'r Cadeirydd, y Comisiynwyr, y Prif Weithredwr a'r staff yn cyfarfod â nifer fawr o unigolion a grwpiau oedd eisiau cynnig eu sylwadau am ein hawgrymiadau ar gyfer prosiectau neu gynnig syniadau eu hunain. Roeddem wrth ein bodd â lefel y diddordeb a ddangoswyd am y Rhaglen, ynghyd â'r amser a'r ymdrech a gyfrannodd ein rhanddeiliaid o ran datblygu'r achos i ddiwygio'r gyfraith. Fe wnaethom hefyd gwrrd â swyddogion ledled Whitehall i fesur y diddordeb tebygol yn y prosiectau diwygio'r gyfraith awgrymedig.
- 1.8 Yn gyfan gwbl, derbynion 1315 o gynigion, sef bron chwech gwaith y nifer a gawsom yn ystod ymgynghoriad y 12<sup>fed</sup> Raglen o ddiwygio'r gyfraith yn 2014. O'r rhain, awgrymwyd 222 o bynciau gwahanol, gyda rhai yn cael cefnogaeth un neu ddau o ymgynghorwyr yn unig, tra bod rhai eraill wedi cael cefnogaeth nifer o bobl. Er enghraifft, derbynion 343 o gynigion ar gyfer diwygio geni babi ar ran rhywun arall, sef cynnig mwyaf poblogaidd yr ymgynghoriad ac sydd wedi'i gynnwys yn y Rhaglen

derfynol. Cafwyd 151 o gynigion ar gyfer diwygio lesddaliad sydd hefyd wedi'i gynnwys yn y Rhaglen.

- 1.9 Hoffai Comisiwn y Gyfraith ddiolch i bawb a gyfrannodd at yr ymgynghoriad ynghylch y 13<sup>eg</sup> Raglen. Roeddem wrth ein bodd â'r ymateb brwdfrydig yn ogystal â'r amrywiaeth eang o syniadau a dderbynion gan yr ymgynghorwyr. Credwn fod hyn wedi'n caniatáu i ddatblygu Rhaglen diwygio'r gyfraith sy'n amrywiol, yn berthnasol ac yn flaengar .

## CYMRU

- 1.10 Mae Comisiwn y Gyfraith yn cwmpasu awdurdodaeth Cymru a Lloegr. Er bod diwygio'r gyfraith yng Nghymru erioed wedi bod yn rhan hanfodol o'n gwaith, mae ei natur wedi newid wrth i ddatganoli gyflymu yn y DU. Mae'r Comisiwn wedi'i ymrwymo i ddiwallu anghenion diwygio'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr o hyd yn y cyd-destun cyfansoddiadol datblygol hyn.
- 1.11 Fe wnaeth Deddf Cymru 2014 ddiwygio Deddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 er mwyn ystyried datganoli yng Nghymru, a galluogi Gweinidogion Cymru i gyfeirio prosiectau diwygio'r gyfraith yn uniongyrchol at y Comisiwn am y tro cyntaf. Bellach, mae ein gwaith ar gyfer Gweinidogion Cymru yn cael ei lywodraethu gan brotocol, a lofnodwyd gan Syr David (bellach yr Arglwydd) Lloyd Jones, ein Cadeirydd ar y pryd, a Phrif Weinidog Cymru, ac yn cael ei gyflwyno i Cynulliad Cenedlaethol Cymru yng Ngorffennaf 2015.<sup>2</sup>
- 1.12 Mae perthynas Comisiwn y Gyfraith a Llywodraeth Cymru yn sefydlog erbyn hyn. Roedd 12<sup>fed</sup> Raglen Diwygio'r Gyfraith yn cynnwys dau brosiect y'u cynhaliwyd yng Nghymru yn unig. Cyhoeddwyd ein hadroddiad ar Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru ym mis Mehefin 2016. Fe wnaeth y Cwnsler Cyffredinol dderbyn y mwyafrif o'n hargymhellion ym mis Mehefin 2017, ar ran Gweinidogion Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi dangos ei bwriad i ddilyn proses hirdymor o gyfundrefnu'r gyfraith o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol, ac mae prosiect peilot ar y gweill. Byddwn yn cynnig pa bynnag gymorth y gallwn.
- 1.13 Fe wnaethom gyhoeddi papur ymgynghori pwysig, *Cynllunio'r Gyfraith yng Nghymru*, ym mis Tachwedd 2017. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw yn sylfaen ar gyfer ein Hadroddiad ac yn nodi cynigion ar gyfer symleiddio'r gyfraith cynllunio yng Nghymru. Yn ei dro, fe ddylai'r Adroddiad hwn hysbysu Bil Cynllunio newydd, a fydd yn sylfaen ar gyfer Cod cynllunio arfaethedig i Gymru. Rydym yn gweithio'n agos ac yn gynhyrchiol â chyfarwyddiaeth cynllunio Llywodraeth Cymru, a Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol ar y prosiect hwn.
- 1.14 Rydym yn parhau i adolygu'r peirianwaith ar gyfer diwygio'r gyfraith yng Nghymru, ac yn gwneud gwelliannau lle y gallwn. Rydym yn gweithredu polisi'r Gymraeg newydd bellach; cytunwyd ar hyn mewn ymgynghoriad â Chomisiynydd y Gymraeg, ac, fel rheol, rydym yn cyhoeddi papurau ymgynghori ac adroddiadau yn ddwyieithog lle bo hynny'n briodol. Yn ddiweddar, fe wnaethom ehangu rôl un o'n Comisiynwyr, Nicholas Paines CF, i roi cyfrifoldeb arbennig iddo am y gyfraith yng Nghymru. Yn 2017, siaradodd Nicholas am ddiwygio'r gyfraith yng Nghymru yn ystod y gynhadledd Cymru'r Gyfraith

---

<sup>2</sup> Protocol rhwng Wweinidogion Cymru a Comisiwn y Gyfraith (2015), Gen-LD10290.



yn Abertawe. Rydym hefyd yn ddiolchgar i aelodau Pwyllgor Cynghori Cymru Comisiwn y Gyfraith sydd wedi rhoi o'u hamser a'u profiad i helpu cefnogi ein gwaith yng Nghymru.

- 1.15 Fe awgrymodd dogfen ymgynghori 'r 13<sup>eg</sup> Raglen ddau brosiect yn ymwneud â Chymru yn unig ac fe dderbynion nifer o ymatebion ymgynghori gan ymgynghoreion o Gymru, gan gynnwys cynigion ar gyfer prosiectau mewn meysydd o'r gyfraith sydd wedi'u datganoli. Mae Pwyllgor Cynghori Cymru wedi cynnig mewnbwn gwerthfawr yn ymwneud â phrosiectau ar gyfer Cymru yn unig ac o ran yr effaith y bydd prosiectau arfaethedig eraill yn eu cael yng Nghymru.
- 1.16 Wrth ystyried y ffocws ar Brexit, yn ogystal â'r cynllun peilot yn ymwneud â chyfundrefnu, nid yw ein trafodaethau â Llywodraeth Cymru wedi arwain at faes penodol sy'n addas ar gyfer prosiect diwygio'r gyfraith yng Nghymru yn unig hyd yma. Rydym dal wedi'n hymrwymo i gynnwys o leiaf un prosiect ar gyfer Cymru yn unig yn y Rhaglen, felly rydym wedi cadw adnoddau i'r neilltu er mwyn galluogi hyn, pan fo maes priodol o waith yn dod i'r amlwg. Byddai unrhyw waith o'r fath yn cael ei dderbyn fel atgyfeiriad Gweinidogol o Lywodraeth Cymru ac yn cael ei weithredu ar y cyd â'r prif Raglen.

## **MEINI PRAWF DETHOL PROSIECTAU COMISIWN Y GYFRAITH**

- 1.17 Dyma'r ail raglen o ddiwygio'r gyfraith i gael ei datblygu o dan delerau'r Protocol rhwng yr Arglwydd Ganghellor a Chomisiwn y Gyfraith, y rhoddwyd cefnogaeth statudol iddo gan Ddeddf Comisiwn y Gyfraith 2009,<sup>3</sup> a'r cyntaf dan y Protocol cyfwerth yng Nghymru.<sup>4</sup> Mae'r Protocolau yn esbonio sut mae'r Llywodraeth a Chomisiwn y Gyfraith yn gweithio gyda'i gilydd, ac yn sefydlu'r weithdrefn ar gyfer creu rhaglen o ddiwygio'r gyfraith.
- 1.18 Wrth ystyried a ddylid cynnwys prosiect yn y 13<sup>eg</sup> Raglen, fe wnaeth Comisiwn y Gyfraith asesu pob cynnig yn erbyn y meini prawf dethol canlynol:
- (1) Pwysigrwydd: i ba raddau y mae'r gyfraith yn anfoddhaol (er enghraifft, yn annheg, rhy gymhleth, yn anhygyrch neu wedi dyddio), a'r manteision posibl o ddiwygio.
  - (2) Addasrwydd: ai'r Comisiwn annibynnol, anwleidyddol yw'r corff mwyaf addas i gynnal y prosiect.
  - (3) Adnoddau: a yw'r adnoddau angenrheidiol, gan gynnwys cyllid ar gyfer prosiectau penodol, ar gael i alluogi'r prosiect i gael ei gyflawni'n effeithiol.
- 1.19 Roedd y Protocolau yn ei wneud yn ofynnol hefyd i ystyried y canlynol:
- (1) a oes dimensiwn Albanaid, neu un yn ymwneud â Gogledd Iwerddon i'r prosiect sydd angen cyfraniad gan Gomisiynau Cyfraith yr Alban a/neu Ogledd Iwerddon;

---

<sup>3</sup> Protocol rhwng yr Arglwydd Ganghellor (ar ran y Llywodraeth) a Chomisiwn y Gyfraith (2010) Comisiwn y Gyfraith Rhif 321, HC 499.

<sup>4</sup> Protocol rhwng Weinidogion Cymru a Comisiwn y Gyfraith (2015), Gen-LD10290.

- (2) a oes dimensiwn Cymreig lle mae angen cyfraniad gan Lywodraeth Cymru; a
- (3) faint o gefnogaeth adrannol sydd ar gyfer y prosiect. O dan delerau'r Protocol, bydd yr Arglwydd Ganghellor neu Weinidogion Cymru yn disgwyl i'r adran berthnasol nodi bwriad difrifol i gyflwyno diwygio'r gyfraith yn y maes cyn cymeradwyo cynnwys prosiect yn y Rhaglen.

## PROSIECTAU A GADARNHAWYD AR GYFER Y DRYDEDD RAGLEN AR DDEG

1.20 Ar ôl cymhwyso'r meini prawf a nodir uchod, mae'r Comisiynwyr wedi dewis y prosiectau canlynol ar gyfer 13<sup>eg</sup> Rhaglen Diwygio'r Gyfraith.

Enw'r prosiect	Cyfrifoldeb polisi
Fframwaith Modern ar gyfer Gwaredu'r Meirw	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
Adolygiad Gweinyddol	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
Cerbydau Awtomatig	Yr Adran dros Drafnidiaeth a'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol
Llofnodion Electronig	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
Strwythurau Gwrando'r Gyfraith Cyflogaeth	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
Gwarannau Canolraddol	Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol
Moderneiddio'r Gyfraith Ymddiriedolaeth ar gyfer Prydain Fyd-eang	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
Casgliadau Amgueddfeydd	Yr Adran Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon
Tir Cofrestredig ac Atebolrwydd Atgyweirio Cangell	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
Lesddaliad Preswyl	Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol
Symleiddio'r Rheolau Mewnfudo	Y Swyddfa Gartref
Contractau Call	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
Geni babi ar ran rhywun arall	Yr Adran Iechyd

Telerau Annheg mewn Lesddaliad Preswyl	Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol
--	---------------------------------------

- 1.21 Mae pob un o'r prosiectau hyn yn cael ei esbonio'n fanylach yn Rhan 2.
- 1.22 Rydym yn falch ein bod wedi cytuno ar Raglen o Ddiwygio'r Gyfraith sy'n amrywiol ac yn berthnasol. Mae'r prosiectau sydd yn y rhaglen wedi'u dylunio i fynd i'r afael ag ystod eang of faterion: o'r rheiny a fyddai'n gallu cryfhau cystadleurwydd y DU yn dilyn y penderfyniad i adael yr UE, fel cymrodeddu a chontractau call; i brosiectau a fydd yn gwella canlyniadau i ddinasyddion, fel benthyc croth a lesddaliad preswyl; a gwaith sy'n hyrwyddo technolegau datblygol trwy sicrhau bod y gyfraith yn cadw i fyny gyda datblygiadau fel llofnodion electronig a cherbydau awtomatig.
- 1.23 Mae'r Rhaglen hon yn cynrychioli swm o waith sylweddol ac mae'n annhebyg y bydd y Comisiwn yn gallu dechrau ar y prosiect cyfan yn ystod cylchred tair blynedd arferol y Rhaglen. Mae yna ddau reswm ar gyfer cyflwyno Rhaglen amrywiol a sylweddol o'r fath.
- 1.24 Yn gyntaf, mae'r Comisiwn yn gweithredu mewn cyfnod ansicr. Mae'n bosib y bydd blaenoriaethau'r Llywodraeth yn newid wrth i effeithiau Brexit ddod i'r amlwg. Mae'n bosib y bydd angen i'r Comisiwn ymateb yn gyflym, naill ai i ymgymryd â gwaith sy'n gysylltiedig â Brexit neu, yn fwy cyffredinol, er mwyn helpu i gefnogi amcanion polisïau nad yw ein cydweithwyr yn Whitehall yn gallu ei wneud wrth iddynt ganolbwyntio eu hymdrechion ar Brexit.
- 1.25 Yn ail, mae'r Rhaglen o ddiwygio'r gyfraith hon yn canolbwyntio'n bennaf ar y prosiectau hynny y bydd angen eu hariannu o gyllideb craidd y Comisiwn, a ddarperir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'r gyllideb wedi'i dylunio i ganiatáu'r Comisiwn i ymgymryd â phrosiectau ar ran y Llywodraeth gyfan ac nid y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn unig. Fel sy'n wir ar gyfer y rhan fwyaf o'r Llywodraeth, mae'r Comisiwn wedi wynebu toriadau sylweddol yn y gyllideb dros y blynyddoedd diwethaf. Disgwylir i hyn barhau yn ystod cyfnod y Rhaglen. O ganlyniad, mae angen i'r Comisiwn ganfod a gweithredu mwy o brosiectau sy'n gwneud arian, a'u cyflawni, nid yn unig rwan, ond drwy gydol oes y Rhaglen. Mae prosiectau o'r fath yn tueddu cyrraedd fel atgyfeiriadau blaenoriaeth uchel o Weinidogion y Llywodraeth ac fel arfer, mae angen dechrau arnynt yn syth a gweithio i amserlenni tynn iawn.
- 1.26 Mae'n bosib y bydd y pwysau i gychwyn nifer fwy o brosiectau gwneud arian yn gyflym, ynghyd ag amgylchedd ansicr, yn arwain at brosiectau sy'n cael eu hariannu drwy gyllid craidd yn cael eu hoedi, efallai am sawl blwyddyn. Nid yw hyn yn adlewyrchu'r flaenoriaeth mae'r Comisiwn yn ei roi i Brosiectau sy'n cael eu hariannu drwy gyllid craidd, ond yn ganlyniad ymarferol o'r angen i ymgymryd â chyfran fwy o brosiectau sy'n gwneud arian er mwyn sicrhau bod y Comisiwn yn diwallu ei rwymedigaeth i'w gyllideb ac yn parhau i fod yn sefydliad hyfyw.
- 1.27 Mae'r Comisiwn yn gobeithio, trwy gynnwys nifer sylweddol o brosiectau sy'n cael eu hariannu drwy gyllid craidd yn y Rhaglen, y bydd gennym yr hyblygrwydd i benderfynu'n annibynnol pa brosiectau y gallwn eu gwneud, pan fo'r adnoddau ar gael. Yn Rhan 2,

rydym yn rhoi arwydd o'r amserlenni posib ar gyfer rhai ond nid yr holl brosiectau sydd wedi'u cynnwys yn y Rhaglen, ac mae'n bosib y bydd amserlen pob prosiect yn newid.

### **GWAITH PARHAUS I DDIWYGIO'R GYFRAITH A PHROSIECTAU PELLACH**

- 1.28 Fel y cyfeirir ati uchod, nid yw pob prosiect mewn rhaglen diwygio'r gyfraith yn cael ei gwblhau yn ystod y rhaglen honno. Yn Rhan 3 y ddogfen hon, er gwybodaeth, rydym yn amlinellu manylion prosiectau o Raglenni blaenorol sydd eisoes yn cael eu gweithredu gan y Comisiwn ac yn mynd i gael eu cwblhau ar y cyd â gwaith y 13<sup>eg</sup> Raglen. Hefyd, ynghyd â phroses y 13<sup>eg</sup> Raglen, mae'r Comisiwn wedi denu dau o atgyfeiriadau (atafael dan Ddeddf Enillion Troseddau 2002 ac atal gwyngalchu arian) sydd ddim yn llunio rhan o'r Rhaglen.
- 1.29 Rydym hefyd yn debygol o ddechrau gwaith ychwanegol yn ystod y 13<sup>eg</sup> Rhaglen ar ffurf cyfeiriadau Gweinidogol dan adran 3(1) Deddf Comisiynau'r Gyfraith 1965.
- 1.30 Yn Rhan 4 y ddogfen hon, rydym yn crynhoi nifer o brosiectau y gwnaethom eu hystyried ar gyfer y 13<sup>eg</sup> Raglen, ond nad ydym wedi gallu eu cyflwyno yn y Rhaglen oherwydd amseru neu ddiffyg cefnogaeth gan y Llywodraeth ar hyn o bryd. Mae'n bosibl y gallem dderbyn rhai o'r prosiectau hyn fel atgyfeiriadau gan Weinidogion yn ystod y Rhaglen hon, neu eu hystyried ar gyfer Rhaglen o ddiwygio'r gyfraith yn y dyfodol.

### **GWEITHIO GYDA CHOMISIYNAU'R GYFRAITH ERAILL**

- 1.31 Mae rôl Comisiwn y Gyfraith yn cwmpasu cyfraith Cymru a Lloegr, ond nid cyfraith yr Alban neu cyfraith Gogledd Iwerddon. Mae gennym berthynas agos â Chomisiwn y Gyfraith yr Alban, ac fe fyddwn yn trafod gyda nhw y mecanwaith orau i sicrhau bod y sefyllfa yn yr Alban, lle'n berthnasol, yn cael ei adlewyrchu orau mewn unrhyw gynigion diwygio'r gyfraith y bydd y Senedd o bosib yn cynnig, a fyddai'n ymestyn i'r Alban. Nid yw Comisiwn y Gyfraith Gogledd Iwerddon yn gweithredu i'w allu llawn ond byddwn yn gweithio gyda'r weinyddiaeth yng Ngogledd Iwerddon lle'n briodol.

# RHAN 2 - PROSIECTAU'R TRYDEDD RAGLEN AR DDEG

## CYFLWYNIAD

- 2.1 Yn y Rhan hon rydym yn nodi'r prosiectau newydd y byddwn yn ymgymryd â hwy. Mae rhai o'r prosiectau hyn eisoes wedi'u diffinio'n dda, ond fe fydd paramedrau rhai eraill yn cael eu hegluro ar ôl astudiaethau gwmpasu.

## FFRAMWAITH MODERN AR GYFER GWAREDU'R MEIRW

Dyddiad cychwyn disgwylidig: Pan fo'r adnoddau ar gael  
Cyfnod disgwylidig: 2 – 3 blynedd.

- 2.2 Nid yw'r gyfraith sydd yn llywodraethu y ffyrdd yr ydym yn gwaredu cyrff ein hanwyliaid pan fyddant yn marw yn addas ar gyfer anghenion modern. Er ein bod tueddi o feddwl mai dewis rhwng claddu ac amlosgi yn unig sydd yn gennym, mae yna dulliau newydd o waredu yn cael eu ddatblygu a'i defnyddio mewn gwledydd eraill. Mae un o'r dulliau hyn yn cynnwys proses o ddefnyddio hydrolysis alcaïaidd i losgi'r corff yn lludw. Dull arall yw'r broses o ddefnyddio nitrogen hylif i grisialu'r corff a dirgryndod i'w chwalu'n ronynnau. Nid yw'r dulliau hyn yn cael eu rheoleiddio yma o gwbl, sydd yn sefyllfa anfoddfaol, am ei bod yn ddatgymhelliad o ran arloesiad a buddsoddiad, sydd hefyd o bosib yn cyfyngu dewisiadau unigolion. Hefyd, mae'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu y dulliau mwy traddodiadol o waredu yn hen ffasiwn, tameidiog a chymhleth. Nid yw'r gyfraith yn sicrhau bod dymuniadau'r unigolyn ei hun ynglŷn â gwaredu ei weddillion yn cael eu diwallu, sydd yn arwain at anghydfodau lle mae aelodau'r teulu'n anghytuno. Mae anghydfodau'n dod i'r amlwg hefyd ynglŷn â hawliau at weddillion unigolyn.
- 2.3 Mewn rhai achosion, nid yw'r gyfraith yn bodloni disgwyladau'r cyhoedd, ac nid yw bob amser yn adlewyrchu strwythurau teuluol gwahanol neu gymdeithas sy'n fwyfwy amlddiwylliannol ac yn ymwybodol o'r amgylchedd. Mae'r problemau gyda'r gyfraith yn arwain at ragor o straen a gofid emosiynol ar adeg sydd eisoes yn gofidus ym mywydau pobl ac yn gost ychwanegol i'r unigolion a'r sefydliadau (gan gynnwys y Llywodraeth leol a chanolog) cysylltiedig.
- 2.4 Bydd y prosiect hwn yn ceisio creu fframwaith cyfreithiol sicr i'r dyfodol sy'n rhoi'r gyfraith gyfredol ar yr un trywydd ag ymarferion modern ac yn galluogi i brosesau diogel ac urddasol newydd gael eu cyflwyno yng Nghymru a Lloegr. Byddai'r prosiect hefyd yn ceisio creu mwy o sicrwydd bod dymuniadau unigolion ynglŷn â beth sy'n digwydd i'w corff ar ôl iddynt farw yn cael eu parchu, ac ar yr un pryd, bod diddordebau'r cyhoedd yn y maes sensitif hwn yn cael eu parchu'n iawn.

## ADOLYGIAD GWEINYDDOL

Dyddiad cychwyn disgwylidig: Pan mae adnoddau ar gael  
Cyfnod disgwylidig: 18 – 24 mis

- 2.5 Adolygiad gweinyddol yw'r system, yn fewnol i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau cyhoeddus, lle caiff penderfyniad sy'n ymwneud ag unigolyn ei ail-ystyried yn dilyn cais gan yr unigolyn neu fel y mynnai'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau. Mewn rhai achosion, mae angen gofyn am adolygiad cyn gwneud cais i driwlynys. Mae penderfyniadau adolygiadau gweinyddol yn pennu canlyniadau o leiaf gymaint o achosion ag y mae apeliadau, neu fwy i bob tebyg; er hynny, mae wedi derbyn ffracsiwn o'r gwaith dadansoddi neu'r sylw academaidd a roddir i agweddau eraill o gyfiawnder gweinyddol.
- 2.6 Mae gweithdrefnau adolygu mewnol effeithiol yn lleihau nifer yr apeliadau ac yn hybu hyder mewn gwneud penderfyniadau gweinyddol. Fodd bynnag, mae adroddiadau annibynnol ddiweddar wedi creu amheuaeth o ran effeithiolrwydd rhai o'r gweithdrefnau adolygu sydd eisoes ar waith.
- 2.7 Bydd y prosiect hwn i ddiwygio'r gyfraith yn hybu gwneud penderfyniadau cywir, mecanweithiau cywiro rhatach a magu hyder y cyhoedd yn y penderfyniadau a wneir. Byddwn yn ystyried ac yn asesu cryfderau'r gweithdrefnau gwahanol sydd ar waith ac yn gwneud argymhellion gyda'r bwriad o nodi ymarferion gorau a gwella'r gweithdrefnau'n gyffredinol. Byddai hyn yn cynnwys ystyried amltra'r her gyfreithiol a nodi unrhyw eitemau sy'n achosi pryder o safbwynt y farnwriaeth ac ymarferwyr cyfreithiol.

## CERBYDAU AWTOMATIG

Dyddiad cychwyn disgwylidig: Chwefror 2018  
Cyfnod disgwylidig: 3 blynedd

- 2.8 Mae Canolfan Cerbydau Cysylltiedig ac Awtonomaidd y Llywodraeth (CCAV), wedi gofyn i Gomisiwn y Gyfraith gynnal adolygiad pell-gyrhaeddol i gyflwyno pecyn o ddiwygiadau modern a chadarn sydd yn hybu datblygiad a defnydd cerbydau awtomatig, yn ogystal â'u cais fel rhan o rwydweithiau trafndiaeth cyhoeddus a gwasanaethau i deithwyr ar gais erbyn 2021.
- 2.9 Mae arloesi technolegol yn cynnig dulliau newydd i bobl a busnesau er mwyn cynllunio ac ymgymryd â'u siwrnai, ac mae'r Llywodraeth eisiau hwyluso hyn, trwy caniatáu'r defnydd o gerbydau awtomatig, er enghraifft. Nid yw fframweithiau cyfreithiol cyfredol yn addas ar gyfer cerbydau awtomatig, felly bydd yr adolygiad yn nodi problemau brys yn y gyfraith a allai rwystro'r defnydd o gerbydau awtomatig, yn ogystal ag ystyried diwygiadau fwy eang hirdymor. Bydd Comisiwn y Gyfraith hefyd yn ystyried sut y gellir cynnwys cerbydau awtomatig o fewn y system rheoleiddio gyfredol ar gyfer fframweithiau trafndiaeth gyhoeddus, a darparu ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus i deithwyr ar gais.
- 2.10 Bydd yr adolygiad yn ategu gwaith blaenorol yr Adran Drafndiaeth, a Chod ymarfer CCAV ar gyfer profi technolegau cerbydau awtomatig, yn ogystal â'r diwygiadau yswiriant sydd wedi'u cynnwys yn y Bil Cerbydau Awtomatig a Thrydanol. Bydd yr adolygiad yn cefnogi'n uniongyrchol amcanion y Llywodraeth o sicrhau bod y DU yn parhau i fod yn un o'r lleoedd gorau yn y byd i ddatblygu a defnyddio cerbydau cysylltiedig ac awtomatig. Bydd gwaith Comisiwn y Gyfraith yn ceisio hybu hyder y cyhoedd o ran diogelwch cerbydau awtomatig, ac i sicrhau bod gan y DU ddiwydiant

cerbydau cysylltiedig ac awtomatig llewyrchus a blaenllaw ledled y byd. Bydd y prosiect hwn hefyd yn ategu'r adolygiad rheoliadol a gyhoeddwyd yn ddiweddar fel rhan o'r Her Fawr 'Dyfodol Symudedd'.

## LLOFNODION ELECTRONIG

Dyddiad cychwyn disgwylidig: Rhagfyr 2017

Cyfnod disgwylidig: 9 – 18 mis (mae'n bosib y caiff ei gynnal ar y cyd â Chontractau Call)

- 2.11 Mae'r rhan fwyaf o fusnesau modern wedi croesawu technoleg i gynnal trafodiadau ar-lein ac yn electronig. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gyfraith achosion neu ddeddfwriaeth sydd yn manylu'n benodol bod dogfennau sy'n cael eu gwblhau â llofnod electronig (ac sydd o bosib yn bodoli ar ffurf electronig yn unig) yn bodloni'r gofynion statudol i ddogfennau fod yn ysgrifenedig ac/neu wedi'u llofnodi ac/neu dan law. Er enghraifft, mae Deddf Cyfathrebu Electronig 2000 yn ymdrin ag achos derbynioldeb tystiolaeth llofnodion electronig, ond nid eu dilysrwydd cynhenid. Mae yna nifer fach o achosion perthnasol sy'n ymdrin â llofnodion electronig yn gyffredinol, ond yn ymylol yn unig. Hefyd, mae dogfennau electronig wedi cael eu derbyn yn y llysoedd ar rai adegau, ond nid bob tro.
- 2.12 Yn sgil diffyg awdurdod eglur, mae rhanddeiliaid wedi hysbysu Comisiwn y Gyfraith bod y cwestiwn ynglŷn â dilysrwydd dogfennau o'r fath yn parhau i fod dan amheuaeth, ac mae ansicrwydd yn dal i fodoli. Ymddengys fod pryderon penodol ynglŷn â sut y dylid tystio llofnodion electronig.
- 2.13 Er bod yr ymgynghoriad ar gyfer y 13<sup>eg</sup> Raglen yn datgelu pryderon ynglŷn â dilysrwydd contractau electronig yn ymwneud â thir, safbwynt Comisiwn y Gyfraith yw y byddai prosiect ehangach yn briodol. Mae hynny'n arbennig o wir wrth ystyried i ba raddau y mae busnesau modern yn cael eu cynnal yn electronig ac ar-lein. Dywedwyd wrthym fod yr ansicrwydd ynglŷn â llofnodion electronig a thystio yn atal rhai busnesau'r DU rhag symud tuag at drafodiadau electronig llawn, a allai fod yn gyflymach ac yn fwy effeithlon. Yn yr amgylchiadau hyn, diben y prosiect fyddai rhoi sylw i unrhyw ansicrwydd ynglŷn â dilysrwydd llofnodion electronig ym mhob math o gontractau.

## STRWYTHURAU GWRANDO'R GYFRAITH CYFLOGAETH

Dyddiad cychwyn disgwylidig: Pan mae adnoddau ar gael

Cyfnod disgwylidig: 12 mis

- 2.14 Mae'r Adolygiad o Strwythur y Llysoedd Sifil, a arweiniwyd gan Briggs LJ, yn nodi bod "maes annifyr" o awdurdodaeth gyfrannol a chyfyngedig yn bodoli ym meysydd y cyfreithiau gwahaniaethu a chyflogaeth, sydd wedi creu materion wrth diffinio'r ffin rhwng y llysoedd a System y Tribiwnlys Cyflogaeth (y Tribiwnlys Cyflogaeth a Thribiwnlys Apelu Cyflogaeth). Fel endidau sui generis, mae'r tribiwnlysoedd yn eistedd "yn sownd rhwng y Llysoedd Sifil a'r prif Wasanaeth Tribiwnlys". Mae arbenigwyr, barnwyr ac ymarferwyr y gyfraith cyflogaeth yn ymwybodol iawn o'r materion hyn; gallant achosi oedi yn ogystal ag atal achosion gael eu penderfynu gan y barnwyr a ddylid delio â nhw.



- 2.15 Bydd y prosiect yn ceisio datrys y problemau yn sgil ddyraniad awdurdodaeth yn y maes yma, yn ogystal ag ymchwilio i'r cyfyngiadau dyddiedig, sydd i ryw raddau'n ormes ar awdurdodaeth y Tribiwnlys Cyflogaeth ym maes cyflogaeth.
- 2.16 Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Adran Busnes, Ynni, Arloesi a Sgiliau (BEIS) wrthi'n diwygio system y Tribiwnlys Cyflogaeth fel rhan o broses moderneiddio system y llysoedd a'r tribiwnlysoedd, ac maent wedi nodi nad oes unrhyw gynlluniau i ystyried newid strwythurol radical. Bydd y prosiect hwn yn gweithio o fewn y ffiniau a sefydlwyd gan sefyllfa'r Llywodraeth, ac yn ystyried ffyrdd o fynd i'r afael â phroblemau awdurdodaethol System y Tribiwnlys Cyflogaeth, heb unrhyw ailstrwythuro sylweddol.

## GWARANNAU CANOLRADDOL

Dyddiad cychwyn disgwylidig: Pan mae adnoddau ar gael  
Cyfnod disgwylidig: 12 mis

- 2.17 Mae'n fwyfwy cyffredin i gadw cyfranddaliadau a bondiau mewn system "datgymalu" a "chyfryngu". Hynny yw, mae tystysgrifau papur wedi eu disodli gan system lle mae'r mwyafrif o fuddsoddwyr yn "berchen" ar gwarannau ar ffurf cofnodion credyd cyfrifiadurol drwy gyfres o gyfryngwyr (fel broceriaid a banciau). Gall perthnasoedd o'r fath fod yn gymhleth iawn, gyda nifer o haenau o gyfryngwyr.
- 2.18 Mae'r system hwn o gyfranddaliadau cyfryngol wedi arwain at fasnachaeth gwarantau llawer cyflymach, rhatach a mwy cyfleus. Fodd bynnag, mae yna nifer o broblemau gyda'r system gyfredol. Er enghraifft, mae'n bosib na fydd y sawl sy'n buddsoddi mewn gwarantau cyfryngol yn meddu ar y systemau unioni y byddent wedi'u cael yn erbyn cyhoeddwr y cyfranddaliadau pe baent yn dal y gwarannau yn uniongyrchol, oherwydd nid oedd ganddynt berthynas uniongyrchol â nhw. Hyd yn oed pan mae'r buddsoddwyr yn wynebu colled yn sgil gweithredoedd diofal neu twyllodrus y cyhoeddwr neu gyfryngwr ymhellach i fyny'r gadwyn, mae'n bosib na fydd ganddynt unrhyw fodd o gael iawndal.
- 2.19 Mae hefyd yn aneglur sut y byddai gwarannau yn cael eu dosbarthu yn achos ansolfedd. Gall hyn fod yn broblem sylweddol pe bai banc neu frocer yn wynebu ansolfedd.
- 2.20 Mae rhai o'r materion hyn yn cael eu cymhlethu gan y ffaith y gallai pob haen mewn cadwyn cyfryngwyr fod yn destun i system gyfreithiol wahanol (yn dibynnu ar leoliad y blaid ddaliannol). Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wrthi'n ystyried y mater penodol hwn ar hyn o bryd.
- 2.21 Mater arall - a godwyd yn y Papur Gwyrdd Diwygiad Llywodraethu Corfforaethol BEIS yn gynharach eleni - yw bod buddsoddwyr yn aml yn methu mynnu hawliau pleidleisio neu'r hawl i wybodaeth yn ymwneud â chyfranddaliadau'r cwmni y maent wedi talu amdanynt, ond sy'n cael eu cadw gan gyfryngwyr. Beirniadir hyn gan y sawl sydd o blaid gwella llywodraethu corfforaethol. BEIS sy'n arwain ar y fframwaith gyfreithiol cwmnïau sy'n llywodraethu gwarannau cyfryngwyr ac mae hefyd yn arwain ar weithredu 'datgymalu' llawn erbyn 2023 ar ran y Llywodraeth. Yn ei ymateb i'r Papur Gwyrdd yn ddiweddar, roedd BEIS yn ganddo parhau i adolygu'r mater hwn ac nid oedd yn diystyru diwygio posib.



- 2.22 Pwrpas y prosiect hwn fydd i gynhyrchu astudiaeth gwmpasu. Byddai hyn yn darparu datganiad clir o'r gyfraith bresennol ac yn ystyried yr opsiynau sydd ar gael i'r llywodraeth i greu sicrwydd cyfreithiol ar gyfer buddsoddwyr a banciau.

### **MODERNEIDDIO CYFRAITH YMDDIRIEDOLAETH AR GYFER PRYDAIN FYD-EANG: ASTUDIAETH GWMPASU**

Dyddiad cychwyn disgwylidig: Pan mae adnoddau ar gael  
Cyfnod disgwylidig: 1 – 1½ blwyddyn

- 2.23 Defnyddir ymddiriedolaethau gan nifer o bobl yn y DU, ond hefyd gan unigolion a chorfforaethau'n rhyngwladol, ac mae nifer ohonynt yn dewis ein cyfraith a'n llysoedd domestig i lywodraethu eu trefniadau. Mae hyn felly'n fasnach allforio cyfreithiol fyd-eang pwysig sy'n denu ystod o fusnes i'r DU ar gyfer cyfreithwyr, cyfrifwyr, banciau a chwmnïau ymddiriedolaeth.
- 2.24 Mae nifer o grwpiau rhanddeiliaid blaenllaw wedi amlinellu amryw o broblemau a chyfyngiadau technegol yn ein cyfraith ymddiriedolaeth bresennol. Byddai prosiect diwygio sy'n adolygu'r gyfraith ar gyfer ymddiriedolaethau yn ystyried maes o'r gyfraith sydd wedi dyddio, gyda'r bwriad o foderneiddio'r gyfraith ar gyfer ymddiriedolaethau i wella cystadleurwydd gwasanaethau ymddiriedolaeth yr awdurdodaeth hyn mewn marchnad fyd-eang. Nid yw'r gyfraith ymddiriedolaeth gyffredinol wedi'i hadolygu'n gynhwysfawr er 1925. Mewn cyferbyniad, mae llawer o awdurdodaethau "ar y tir" ac "ar y môr" eraill – gan gynnwys yr Alban, Jersey, Seland Newydd a Singapôr – wedi diweddarau eu cyfraith ymddiriedolaeth ac wedi bod yn greadigol o ran cynnal marchnad ymddiriedolaeth iach. Yn ogystal â'r problemau gyda'r gyfraith gyfredol, mae ymgynghorwyr wedi amlinellu'r datblygiad o ymddiriedolaeth a strwythurau tebyg i ymddiriedolaeth amgen a hyblyg mewn awdurdodaethau eraill sydd ddim ar gael yng Nghymru a Lloegr, fel Jersey Foundations ac Ymddiriedolaethau Star Ynysoedd y Cayman. Efallai na fydd pob un o'r strwythurau hyn yn addas ar gyfer yr awdurdodaeth hon, ond mae yna ddadl gref y dylid gwerthuso eu manteision a'u hanfanteision.
- 2.25 Ni fydd y prosiect hwn yn gwneud argymhellion ar gyfer trethiant ymddiriedolaethau; Trysorlys ei Mawrhydi sy'n gyfrifol am y polisi hwn. O ganlyniad, ni fydd y prosiect hwn yn cynnwys y gyfraith camgymeriad sydd â goblygiadau treth sylweddol. Mi fydd y cwestiwn a ddylai ymddiriedolaethau gael personoliaeth gyfreithiol hefyd yn disgyn y tu allan i gwmpas y prosiect. Mae'r Comisiwn wedi ystyried y cwestiwn hwnnw eisoes. Fe wnaethom benderfynu i beidio â pharhau gyda'r gwaith hwnnw oherwydd fe brofodd canlyniadau arfaethedig unrhyw newid i fod yn rwystr sylweddol o ran cael cytundeb y rhanddeiliaid ynglŷn â'r mater.
- 2.26 Bydd y prosiect yn astudiaeth gwmpasu cychwynnol i ymchwilio problemau â'r gyfraith ymddiriedolaeth gyda'r bwriad o nodi agweddau'r gyfraith ymddiriedolaeth y dylid gweithio arnynt mewn un neu fwy o brosiectau diwygio'r gyfraith.

### **CASGLIADAU AMGUEDDFEYDD**

Dyddiad cychwyn disgwylidig: Pan mae adnoddau ar gael  
Cyfnod disgwylidig: 2 – 3 blynedd.

- 2.27 Mae amgueddfeydd yn gwynebu problemau sylweddol wrth ymdrin â gwrthrychau lle mae'r teitl cyfreithiol yn ansicr neu nid yw'r perchnogion yn hysbys neu ni ellir ddod o hyd iddynt, o ganlyniad i gofnodion caffael sy'n wael neu ddim yn bodoli (yn aml yn dyddio o amser pan nad oedd cadw cofnodion yn bodloni'r safonau modern). Mae amgueddfeydd yn bryderus wrth ddelio â gwrthrychau o'r fath (er enghraifft eu cludo i amgueddfeydd eraill) oherwydd y risg o fod yn atebol am drosedd sifil (trosi drwy dwyll) os nad oedd ganddynt yr hawl i wneud hynny yn y lle cyntaf.
- 2.28 Mae awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am reoli amgueddfeydd yn wynebu problemau neilltuol wrth reoli eitemau yn eu casgliadau oherwydd diffyg eglurder ynglŷn â sut – yn ôl y gyfraith – mae eitemau o'r fath yn cael eu cadw a phryd y gellir cael gwared ohonynt yn gyfreithlon (ac yn foesol). Gall rhai amgueddfeydd cenedlaethol ond cael gwared o eitemau trwy ddilyn proses sydd o bosib yn ddiangen lle mae rhaid gael awdurdod gan yr Ysgrifennydd Gwladol.
- 2.29 Bydd y prosiect hwn yn adolygu'r problemau hyn gyda'r nod o ddarparu rheolau cyfreithiol eglur ynghylch y ffyrdd a gellir cadw gwrthrychau ac ymdrin â hwy. Byddai rheolau o'r fath yn helpu i roi sicrwydd i gyfranwyr posibl, gan wella eu dealltwriaeth ynglŷn â beth y gellir a beth na ellir ei wneud gyda'u rhodd. Yn yr un modd, bydd y rheiny sy'n gyfrifol am gasgliadau amgueddfeydd yn gallu rheoli eu casgliadau'n fwy effeithiol heb gael cyngor cyfreithiol drud ac arbenigol i ganfod y rheolau cyfreithiol cymwys, neu wynebu costau storio diangen ar gyfer eitemau sydd heb unrhyw werth treftadol parhaus.

## **TIR COFRESTREDIG AC ATEBOLRWYDD ATGYWEIRIO CANGELL**

Dyddiad cychwyn disgwylidig: Pan mae adnoddau ar gael  
Cyfnod disgwylidig: 6 – 9 mis

- 2.30 Atebolrwydd ar gyfer atgyweirio cangell yw atebolrwydd ar dirfeddianwyr penodol i dalu am atgyweiriadau i eglwys leol. Bwriad Deddf Cofrestru Tir 2002 oedd i ddileu y goblygiad am atgyweirio cangell rwyng ym ar gyfer prynwyr tir ar ôl 2013, oni bai ei bod wedi'i gwarchod ar y gofrestr. Fodd bynnag, ers sefydlu Deddf 2002, mae statws cyfreithiol yr atebolrwydd wedi cael ei gwestiynu, ac felly mae perchnogion wedi eu rhwymo i'r atebolrwydd yma er gwaethaf y Ddeddf.
- 2.31 Byddai'r prosiect byr hwn yn ceisio cau'r bwlch hwn ac felly cyflawni bwriad gwreiddiol Deddf Cofrestru Tir 2002. Byddai gwneud hynny'n dileu'r ymarferion safonol cyfredol sef prynwr yn chwilio am a/neu'n yswirio yn erbyn risg atebolrwydd, sy'n costio tua £20 miliwn bob blwyddyn. Bydd y gwaith yn cael ei gyflawni naill ai fel cyngor i'r Llywodraeth, neu fel argymhellion gyda Bil ddrafft byr.

## **LESDDALIAD PRESWYL**

Dyddiad cychwyn disgwylidig: Rhagfyr 2017  
Cyfnod disgwylidig: 2½ flynedd

- 2.32 Mae yna restr helaeth o broblemau sylweddol iawn gyda'r gyfraith lesddaliad preswyl. Roedd nifer fawr o ymatebwyr i'n hymgyngoriad y 13<sup>eg</sup> Raglen yn beirniadu anghysondeb, cymhlethdod ac (ym marn nifer o'r ymatebwyr) annhegwch y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu rhyddfrenio, taliadau gwasanaeth, ffioedd gweinyddol

prydlesu, hawliau cynnig cyntaf, yr hawl i reoli ac apwyntio rheolwr. Codwyd pryderon hefyd ynglŷn â rheoliad cyfyngedig yr asiantaethau rheoli, sy'n golygu bod y prydleswyr yn agored i ffioedd uchel a gwasanaeth gwael. Cafodd y gyfundrefn cyfunddaliad ei beirniadu gan ymgynghorwyr hefyd. Fe'i cyflwynwyd i osgoi problemau â phrydlesu hir, ond nid yw'r datblygwyr wedi'i mabwysiadu ac mae bron yn amhosib i brydleswyr presennol drosi i'r math hwn o berchnogaeth. Mae'n hanfodol bod lesddaliad yn gweithio'n deg am y tua 4 miliwn o eiddo prydlesol yn Lloegr,<sup>5</sup> a dylid adolygu cyfunddaliad er mwyn ei alluogi i chwarae'r rôl yr oedd wedi'i gynllunio ar ei gyfer.

2.33 Bydd ein prosiect lesddaliad preswyl yn dechrau trwy fynd i'r afael â thri mater a nodwyd fel meysydd blaenoriaeth gan yr Adran Cymunedau a'r Llywodraeth Leol (DCLG).

- (1) Cyfunddaliad; math o berchnogaeth sydd yn caniatáu i rhywun berchen â rhydd-ddaliad fflat a dod yn aelod o gymdeithas cyd-ddeiliaid sydd yn rheoli ardaloedd cymunedol. Byddwn yn adolygu y resymau pam bod cyfunddaliad wedi methu ac yn ystyried y diwygiadau sydd eu hangen i'r gyfraith gyfredol er mwyn galluogi gweithrediad llwyddiannus.
- (2) Rhyddfrenio; dyma hawl y lesddeiliad i brynu'r rhydd-ddaliad neu estyniad i'r brydles. Byddwn yn edrych ar ffyrdd o symleiddio'r weithdrefn a gwneud y prisiad yn decach ac yn fwy tryloyw.
- (3) Rheoleiddio'r asiantaethau rheoli; bydd cwmpas ein gwaith yn cael ei benderfynu yn dilyn galwad am dystiolaeth gan y DCLG yn ddiweddar.<sup>6</sup>

2.34 Mae'n bosib y bydd y prosiect hefyd yn cynnwys meysydd eraill y gyfraith lesddaliad a godwyd gan yr ymgynghorwyr (y byddwn yn parhau i'w trafod â'r DCLG), a bydd yn ategu gwaith y DCLG ei hun ar faterion lesddaliad.<sup>7</sup>

## **SYMLEIDDIO RHEOLAU MEWNFUDO**

Dyddiad cychwyn disgwylidig: Rhagfyr 2017

Cyfnod disgwylidig: 12 mis

2.35 Mae'r Rheolau Mewnfudo yn hanfodol o ran llunio sut mae'r Llywodraeth yn bwriadu i'r system fewnfudo weithredu ar y cyfan, ac maent yn effeithio nifer fawr o unigolion sy'n ceisio cael caniatâd i ddod i mewn i'r DU neu i aros ynddi. Fodd bynnag, cânt eu beirniadu i raddau helaeth am fod yn rhy hir, cymhleth ac yn anodd i'w defnyddio. Mae'r rheolau yn ymestyn i 1033 tudalen. Mae datganiadau o newidiadau i'r Rheolau yn gyson ac yn fanwl. Rhwng 2012 a 2016, er enghraifft, ac yn bennaf o ganlyniad cyflwyniad

---

<sup>5</sup> Cyhoeddiad Ystadegol yr Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol, *Amcan y nifer o lesddaliadau preswyl yn Lloegr 2014-2015* (Ebrill 2017).

<sup>6</sup> *Amddiffyn Cwsmeriaid yn y farchnad prydlesio a asiantaethau rheoli: galwad am dystiolaeth* (Hydref 2017) ar gael ar <https://www.gov.uk/government/consultations/protecting-consumers-in-the-letting-and-managing-agent-market-call-for-evidence>.

<sup>7</sup> Gweler ymgynghoriadau diweddar DCLG (Gorffennaf 2017) ar gael ar <https://www.gov.uk/government/consultations/tackling-unfair-practices-in-the-leasehold-market>; *Cydnabod asiantaethau preswylwyr, a'u pŵer i ofyn am wybodaeth am tenantiaid* (Gorffennaf 2017) ar gael ar <https://www.gov.uk/government/consultations/recognising-residents-associations-and-their-power-to-request-information-about-tenants>

system fewnfudo yn "seiliedig ar bwyntiau", fe gynyddodd maint y Rheolau hyd at 25%. Awgrymwyd hefyd fod y Rheolau wedi'u drafftio'n wael. Mae'r system rhifo yn anghyson: yn ogystal â'r rhifo paragraffau hybrid cyfarwydd drwy fewnosod paragraffau newydd (ychwanegu "As" a "ABs" ac ati), mae sawl atodiad wedi eu cyflwyno gyda'u system rifo unigryw eu hunain.

- 2.36 Mae'r prosiect hwn hefyd yn cynnig cyfle i adolygu'r cydbwysedd rhwng y Rheolau a deunydd allanol sydd yn cynnwys cyfarwyddiadau neu gwybodaeth atodol, ac i geisio nodi'r achosion sylfaenol am hyd ormodol a chymhlethdod y Rheolau a gwneud argymhellion i'w gwella yn y dyfodol.
- 2.37 Ni fydd y prosiect hwn yn cynnwys unrhyw newidiadau polisi sylweddol neu deddfwriaeth, ond yn lle hynny bydd yn ceisio nodi'r egwyddorion er mwyn ailddrafftio'r Rheolau i'w gwneud yn symlach ac yn fwy hygyrch i ddefnyddwyr. Ni fydd yr adolygiad yn effeithio'r sylfaen gyfreithiol sydd yn caniatáu i unigolyn ddod i mewn i'r DU neu aros ynddi.

## CONTRACTAU CALL

Dyddiad cychwyn disgwylidig: Gallai cael ei gynnal ar y cyd a Chontractau Call  
Cyfnod disgwylidig: 9 – 18 mis

- 2.38 Mae technolegau datblygol fel "blockchain" yn cael eu hyrwyddo fel ffordd o greu "contractau call", sef contractau sy'n cael eu creu yn awtomatig ac wedi'u hysgrifennu mewn cod cyfrifiadur. Mae contract call yn sbarduno amrywiaeth o brosesau'n awtomatig yn ôl ei delerau. Disgwylir i gontractau call gynyddu ymddiriedaeth a sicrwydd mewn busnes.
- 2.39 Er mwyn sicrhau bod llysoedd Lloegr yn parhau i fod yn ddewis cystadleuol i fusnesau, mae yna ddadl gref ar gyfer adolygu fframwaith gyfreithiol a rheoliadol Lloegr i sicrhau ei bod yn hyrwyddo defnyddio contractau call. Er enghraifft, ni ellir dileu neu ailysgrifennu data hanesyddol a gofnodir mewn cod blockchain. Er bod hyn fel arfer yn cael ei gyflwyno fel nodwedd fanteisiol o blockchain, mae hefyd yn golygu na allai canolwr trydydd parti (fel llys) gywiro unrhyw gamgymeriadau ymddangosiadol, neu annhegwch yn y contract yn yr un modd. Mae yna gwestiynau ynglŷn â sut byddai'r nodwedd hon yn rhyngweithio â chysyniadau cyfraith contract fel telerau neu gontractau goblygedig sydd wedi'u hystyried yn ddi-rym o'r cychwyn cyntaf. Mae yna hefyd gwestiynau am gyfraith diogelu data.

## GENI BABI AR RAN RHYWUN ARALL

Dyddiad cychwyn disgwylidig: Gwanwyn 2018 (yn amodol ar gadarnhau'r cyllid)  
Cyfnod disgwylidig: 2 – 3 blynedd

- 2.40 Mae benthg croth yn disgrifio'r sefyllfa lle mae merch yn geni plentyn ar ran person neu bobl eraill sydd, i bob pwrpas, yn bwriadu bod yn rhieni i'r plentyn. Fel arfer, mae'r rhieni a fwriadwyd yn ymrwymo i drefniant benthg croth oherwydd eu bod wedi wynebu problemau ffrwythlondeb neu'n methu beichiogi'n naturiol. Yn y DU, caiff y broses o fenthg croth ei lywodraethu gan Ddeddf Benthg Croth 1985 yn ogystal â rhai o ddarpariaethau'r Deddf Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg 2008. Gall y rhieni a fwriadwyd

feddu ar Gorchymyn Rhieni ar ôl genedigaeth y plentyn a anwyd i'r fam sy'n benthyg croth er mwyn cael eu cydnabod fel rhieni cyfreithiol.

- 2.41 Mae'n debygol, er bod nifer yr achosion o blentyn yn cael ei eni o ganlyniad i drefniadau benthyg croth i rieni a fwriadwyd sy'n byw yn y DU bob blwyddyn yn eu cannoedd yn hytrach na'r miloedd, mae'r nifer o bobl sy'n defnyddio trefniadau o'r fath wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y deng mlynedd ddiwethaf, a disgwylir i'r nifer hwn barhau i godi. Mae perthnasoedd o'r un rhyw yn cael eu derbyn fwy fwy yn sgil cyflwyno partneriaeth sifil ac ehangu hawliau priodi yn un o nifer o ffactorau sy'n debygol o arwain at gynydd yn y nifer o blant sy'n cael eu geni o ganlyniad i drefniant benthyg croth. Yn achos cwpl o'r un rhyw, trefniant benthyg croth yw'r unig ffordd ffurfiol o gael plentyn sy'n perthyn yn fiolegol i un o'r rhieni a fwriadwyd. Mae'n bosibl bod benthyg croth yn lwybr pwysig tuag at fagu plant yn achos rhai pobl drawsryweddol hefyd. Mae'r gyfraith benthyg croth yn ymdrin â materion a hawliau pwysig iawn i'r plant a'r oedolion sy'n rhan o drefniadau o'r fath: mae'r rhain yn cynnwys cwestiynau yn ymwneud â phwy yw'r rhieni ac atal camfanteisio ar blant ac eraill.
- 2.42 O ganlyniad, mae hyn wedi amlygu problemau sylweddol yn y gyfraith. Mae'r gyfraith wedi cael trafferth yn addasu i newidiadau mewn agweddau cymdeithasol sy'n newid a'r gawl cynyddol am drefniadau benthyg croth, gan gynnwys trefniadau benthyg croth tramor. Er enghraifft, mae'r llysoedd wedi cael trafferth yn gweithredu'r amodau statudol ar gyfer Gorchymyn Rhieni oherwydd bod y ffactor pwysicaf, sef lles gorau'r plentyn, yn ei wneud yn anodd i'r llys wrthod cydnabyddu perthynas sy'n bodoli eisoes rhwng y rhieni a fwriadwyd a'r plentyn. O ganlyniad, mae'r llysoedd wedi ymestyn neu newid nifer o'r gofynion statudol ar gyfer Gorchymyn Rhieni, ond nid yw'r gyfraith achosion wedi llwyddo i ddatrys problemau sylfaenol yr orchymyn, neu ganfod atebion i'r holl anawsterau. Datganwyd bod un gofyniad, sef bod angen i ddau o bobl wneud cais ar gyfer Gorchymyn Rhieni, yn anghydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae'n bosibl felly bod y gyfraith, a lywodraethir gan Ddeddfau 1985 a 2008, yn fwy arnhydeddus am gael ei thorri yn hytrach na'i dilyn.
- 2.43 O ganlyniad, mae yna gwestiynau arwyddocaol yn ymwneud â'r weithdrefn ar gyfer gwobrwyo Gorchymyn Rhieni i'r rhieni a fwriadwyd. Rhai o'r materion yn unig yw'r rhain. Mae trefniadau benthyg croth hefyd yn amlygu pryderon ynglŷn â hawliau plant i gael gwybodaeth am eu rhieni genetaidd a'u rhieni a fwriadwyd fel ei gilydd, tra bod cwestiynau ehangach yn bodoli ynglŷn â'r sylfeini ar gyfer caniatáu trefniadau benthyg croth. Mae trefniadau benthyg croth rhyngwladol yn amlygu'r problemau ynglŷn â chenhedlaeth plant wedi'u geni i rieni benthyg croth (gan gynnwys y risg o fod heb ddinasyddiaeth), dod â phlant wedi'u geni i rieni benthyg croth i mewn i'r DU, a'r risg o gamfanteisio ar yr holl bleidiau dan sylw.
- 2.44 Mae'r galwadau i ddiwygio, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, yn uwch ac yn fwy o frys nag erioed: yn Nhŷ'r Arglwyddi, dywedir "...ein bod yn edrych i'r dyfodol ac at ddiweddarau system rhieni benthyg croth y DU ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> ganrif", a bod benthyg croth yn "...galw am sylw Comisiwn y Gyfraith i'w gynnwys yn ei raglen diwygio'r gyfraith nesaf sydd wrth law". Mae benthyg croth yn cael ei drafod yn eang yn y wasg ac yn y Senedd, ac wedi'i dadlau yn ddiweddar gan Y Gynhadledd Hague ar y Gyfraith Ryngwladol Breifat a Chyngor Ewrop. Rydym o'r farn bod y gyfraith sy'n ymwneud â benthyg croth wedi dyddio ac yn aneglur, ac angen ei diwygio'n gynhwysfawr. Bydd diwygio yn darparu buddion sylweddol o ran eglurdeb, modernedd ac amddiffyn y rheiny

sy'n cytuno i drefniadau benthg croth ac, yn bwysicach, y plant sy'n cael eu geni o ganlyniad i drefniadau o'r fath.

## **TELERAU ANNHEG MEWN LESDDALIAD PRESWYL**

Dyddiad cychwyn disgwylidig: Pan fo'r adnoddau ar gael

Cyfnod disgwylidig: 12 mis

- 2.45 Mae problemau ynglŷn ag eiddo lesddaliad wedi'u hamlygu yn y cyfryngau'n ddiweddar a gan y Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar gyfer Cyfundaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad. Mae Comisiwn y Gyfraith wedi clywed oddi wrth rhanddeiliaid ynglŷn â'r telerau annheg arfaethedig yn y lessoedd, gan gynnwys rhentau tir sy'n codi'n gyflym, taliadau gwasanaeth sefydlog a ffioedd ar aseinio lessoedd. Nid yw'r fath yma o delerau mewn lessoedd yn cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd ac nid yw'r lesddeiliaid yn gallu eu herio dan y gyfraith lanlord a thenant. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gellir defnyddio'r gyfraith telerau annheg i lenwi'r bwch hwn.
- 2.46 Ar hyn o bryd, y lesddeiliad gwreiddiol yn unig sy'n gallu herio teler yn effeithiol dan y gyfraith telerau annheg. Pan mae'r les yn cael ei chlustnodi neu ei gwerthu, nid yw'r lesddeiliad dilynol yn gallu herio tegwch y teler yn effeithiol. Mae hyn oherwydd, yn unol ag adran 62(5) Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015, mae p'un a yw teler yn deg yn cael ei ddiffinio gan "gyfeiriad at yr holl amgylchiadau a oedd yn bodoli pan cytunwyd y teler". Wrth ystyried p'un a yw teler yn deg neu beidio, mae'n bosib y bydd y llys yn edrych ar yr amgylchiadau cytuno'r teler rhwng y lanlord a'r lesddeiliad gwreiddiol. Ni ellir ystyried yr amgylchiadau ar gyfer clustnodi i'r lesddeiliad nesaf.
- 2.47 Pwrpas y prosiect hwn yw i ystyried, bob tro y mae lessoedd yn cael eu clustnodi, p'un a ddylid ystyried bod hyn gyffelyb â chreu contract newydd rhwng y landlord a'r lesddeiliad at ddibenion y gyfraith telerau annheg. Effaith hyn yw y byddai'r y llys yn gallu canolbwyntio ar yr amgylchiadau a oedd yn bodoli pan wnaeth y lesddeiliad presennol clustnodi'r les.

## **RHAN 3 - PROSIECTAU PARHAUS**

### **CYFLWYNIAD**

3.1 Yn yr adran hon, rydym yn cynnig trosolwg cryno o'r prosiectau presennol y bu'r Comisiwn wrthi'n gweithio arnynt ers cyn y 13<sup>eg</sup> Raglen. Rydym hefyd yn amlinellu manylion ddau brosiect rydym yn gweithio arnynt, a gyrhaeddodd yn ddiweddar drwy gyfeiriadau gan y Swyddfa Gartref: atal gwyngalchu arian ac atafael yn unol â Deddf Enillion Troseddau 2002.

### **ATAL GWYNGALCHU ARIAN**

3.2 Nid yw'r gyfundrefn atal gwyngalchu arian yn effeithio busnesau'n gyfartal ac nid yw y gorau posibl o ran atal, darganfod ac erlyn gwyngalchu arian. Mae'r prosiect yn arbennig o bwysig yng nghyd destun gadael yr UE a gwerthusiad y Tasglu Gweithredu Ariannol o'r DU sydd ar y gweill yn 2018. Bydd datrys y problemau a nodir uchod yn hanfodol o ran cynnal enw da Llundain fel canolfan ariannol y byd.

3.3 Bydd y prosiect yn cynnwys ystyried y gyfundrefn gydsynio yn adrannau 327 i 329 a 335 a 338 Rhan 7 Deddf Enillion Troseddau 2002 ("PoCA"); a'r troseddau datgelu yn adrannau 330 i 333A y Ddeddf, sy'n achosi problemau cysylltiedig.

3.4 Nod y prosiect yw gwneud y gorau o'r gallu i ganfod atal gwyngalchu trwy adroddiadau effeithiol a chyfyngu effaith negyddol y gyfundrefn bresennol ar y busnesau a'r sefydliadau. Cafodd y prosiect ei atgyfeirio i ni o'r Swyddfa Gartref a bydd yn cychwyn ym mis Rhagfyr 2017 gyda chyfnod disgwyltiedig o 12 mis.

### **ATAFAEL DAN DDEDDF ENILLION TROSEDDAU 2002**

3.5 Bydd y prosiect atafael yn archwilio'r gyfundrefn atafael gyflawn o dan Ran 2 Deddf Enillion Troseddau 2002 ("PoCA"). Mae'r holl ymgynghorwyr a'r rhanddeiliaid wedi amlygu pwysigrwydd diwygio Rhan 2 PoCA er mwyn galluogi gwneud gorchmynion atafael yn fwy effeithlon ac i gynyddu'r gyfradd adfeddu. Byddai gyfundrefn atafael fwy effeithlon yn caniatáu arbedion sylweddol o ran amser y llys ac yn cynyddu hyder y cyhoedd yn y system cyfiawnder troseddol.

3.6 Mae rheolau atafael yn rhy gymhleth ac nid yw'r barnwyr yn meddu ar yr arbenigedd neu'r hyder sydd eu hangen yn y maes hwn. Mae problemau gyda gosod gorchmynion atafael yn arwain at achosion sy'n gofyn amser, gwallau barnwrol, apeliadau niferus, achosion o anghyfiawnder yn erbyn troseddwr a dioddefwyr, a chyfyngu'r nifer o orchymynion a wneir bob blwyddyn.

3.7 Yn ogystal â hyn, mae'r tebygrwydd o orfodi gorchmynion yn aml yn gyfyng. Mae'r symiau y mae troseddwr yn cael eu gorchymyn i'w talu yn aml yn afrealidd yn sgil gweithredu rhagdybiaethau a rheolau statudol eithafol wrth gyfrifo'r swm sydd ar gael (yn enwedig y darpariaethau rhoddion drwg a chanfyddiadau asedau cuddiedig yn dilyn methiant y diffynnydd i roi cyfrif am ei gostau naill ai ers yr ymddygiad troseddol neu yn ystod y chwe mlynedd ddiwethaf). Mae'r cymhelliannau presennol i fodloni gorchmynion



(sef cyfradd llog o 8% ar orchmynion) a sancsiynau diffygddalu (gweithredu'r telor diffygddalu carcharu) yn aneffeithiol: er enghraifft, yn 2012, 2% o orchmynion yn unig a gafodd eu talu'n llawn yn dilyn gweithredu'r telor diffygddalu. Yn olaf, mae gan ynadon ddiffyg pwerau digonol i orfodi gorchymynion atafael yn effeithiol. Mae problemau wrth orfodi gorchymynion atafael yn arwain at ddiffyg adfeddu ac yn tansellio hyder y cyhoedd mewn gorfodi'r gyfraith a'r egwyddor nad yw troseddu yn talu.

- 3.8 Cafodd y prosiect hwn ei atgyfeirio atom gan y Swyddfa Gartref; bydd yn cychwyn yn gynnar yn 2018 a disgwylir ei gwblhau mewn dwy flynedd.

## **CYFRAITH ETHOLIADOL**

- 3.9 Mae gyfraith etholiadol yn y DU yn gymhleth, yn helaeth ac yn dameidiog. Yn dilyn y cyfnod cwmpasu, cafodd papur ymgynghori ei gyhoeddi a oedd yn amlinellu cynigion ar gyfer diwygio cyfraith etholiadol, ac yn canolbwyntio ar weinyddiaeth etholiadol, troseddau etholiadol a her gyfreithiol. Cafodd cynigion y papur gefnogaeth ysgubol gan y Comisiwn Etholiadol, gweinyddwyr etholiadol, cyfreithwyr arbenigol a'r prif bleidiau gwleidyddol. Ym mis Chwefror 2016, cafodd adroddiad interim ei gyhoeddi ar y cyd â Chomisiwn y Gyfraith yr Alban a Chomisiwn y Gyfraith Gogledd Iwerddon a oedd yn amlinellu ein hargymhellion yn sgil ymgynghori.

- 3.10 Yn dilyn adolygiad Swyddfa'r Cabinet o'r adroddiad interim, ac yn sgil atodiadau deddfwriaethol gorlawn yn dilyn Brexit, bu Comisiwn y Gyfraith yn gweithio gyda'r Llywodraeth a'r Comisiwn Etholiadol i benderfynu i ba raddau y gellir cyflwyno ei argymhelliad drwy ddeddfwriaeth eilaidd. Y cam nesaf fydd cynhyrchu adroddiad ynghyd â chymalau drafft y gellir eu gweithredu drwy ddeddfwriaeth eilaidd mewn pryd ar gyfer etholiadau arfaethedig yn 2020.

## **O FILIAU GWERTHIANT I FORGEISI NWYDDAU**

- 3.11 Mae biliau gwerthiant yn ffordd i unigolyn allu defnyddio nwyddau sy'n eiddo iddo eisoes fel sicrwydd ar gyfer benthyciad neu rwymedigaethau eraill, tra'n cadw meddiant ar y nwyddau hynny. Cânt eu rheoleiddio gan statudau Oes Fictoria, o 1878 ac 1882. Mae defnyddio biliau gwerthiant wedi cynyddu'n ddramatig yn y ganrif hon, o 3,000 yn 2001 i fwy na 30,000 yn 2016. Mae hyn yn bennaf yn sgil y cynnydd mewn "benthyciadau llyfr log", sef mae'r sawl sy'n cael y benthyciad yn trosglwyddo perchnogaeth ar ei gerbyd presennol i'r sawl sy'n rhoi'r benthyciad. Gall rhywun sy'n ad-dalu'n rheolaidd barhau i ddefnyddio'r cerbyd. Ond, mae rhywun sy'n methu talu'n gallu colli'r cerbyd, heb y warchodaethau sy'n berthnasol i drafodiadau hurbwrcas.

- 3.12 Yn 2014, gofynnodd Trysrols EM i Gomisiwn y Gyfraith edrych ar ddeddfwriaeth y deddfau biliau gwerthiant ac ystyried sut y gellid ei digwyio. Yn 2016, gwnaethom argymhell y dylid diddymu deddfwriaeth biliau gwerthiant a'i disodli gyda gyfundrefn "morgeisi nwyddau" newydd. Nododd y Lywodraeth ei bod yn cefnogi pwyslais trosfwaol ein hargymhellion a gofynnwyd i ni greu deddfwriaeth ddrafft ar gyfer eu gweithredu. Gwnaethom gyhoeddi adroddiad pellach, gan gynnwys Bil Morgeisi Nwyddau yn Nhachwedd 2017.



## YSWIRIO DIDDORDEBAU

- 3.13 Mae Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr a Chomisiwn y Gyfraith yr Alban wrthi'n cynnal adolygiad ar y cyd o'r gyfraith cytundebau yswiriant. Hyd yma, rydym wedi cyhoeddi dau adroddiad sydd wedi arwain at ddeddfwriaeth yn cael ei cyflwyno drwy'r weithdrefn seneddol arbennig ar gyfer Biliau annadleuol Comisiwn y Gyfraith.<sup>8</sup>
- 3.14 Y pwnc olaf sy'n cael ei gwmpasu gan ein prosiect y gyfraith gontract yswiriant yw'r angen am yswirio diddordebau. Mae hyn yn golygu y byddai'n rhaid i'r unigolyn sy'n meddu ar yr yswiriant gael budd o gadwraeth ar destun yswiriant, neu i ddioddef anfantais os caiff ei golli neu ei ddifrodi. Gofynnwyd i Gomisiynau'r Gyfraith symleiddio a diweddarau'r gyfraith yn y maes hwn a chreu Bil drafft i weithredu'r cynigion hynny. Bûm yn ymgynghori ar Bil drafft eisoes ac rydym yn ei ddiweddarau o ganlyniad i sylwadau'r rhanddeiliaid. Rydym yn bwriadu ymgynghori ar y drafft sydd wedi'i diweddarau yn y dyfodol agos.

## COFRESTRU TIR

- 3.15 Dechreuodd y prosiect hwn yng ngwanwyn 2015, ac mae'n deillio o'n 12<sup>eg</sup> Raglen diwygio'r gyfraith. Fe'i ddyluniwyd er mwyn diweddarau'r gyfraith gyfredol sy'n llywodraethu cofrestru tir sydd wedi'i chynnwys yn Ndedf Cofrestru Tir 2002, yn sgil profiad ei gweithrediad ers iddi ddod i rym ym mis Hydref 2003.
- 3.16 Mae'r gyfundrefn cofrestru tir o bwysigrwydd enfawr a chynyddol. Mae dros 84 y cant o'r tir yng Nghymru a Lloegr wedi'i gofrestru, gyda Chofrestrfa Tir EM yn cynnal dros 24 miliwn o deitlau. Gall sefyllfaoedd ac anghydfodau sy'n defnyddio'r gyfundrefn cofrestriadau tir fod yn gymhleth ac yn gofyn am gyngor arbenigol. Mae ansicrwydd yn y gyfundrefn yn gwneud hi'n anodd cynghori cleientiaid, yn cymell ymglyfreithiad ac yn cynyddu costau i berchnogion tir.
- 3.17 Mae yna dystiolaeth bod angen adolygu neu ddarparu eglurhad ar rai meysydd y gyfraith bresennol. Gwnaethom ymgynghori rhwng mis Mawrth a Mehefin 2016, ac mae ein gwaith hyd yma wedi datgelu amrywiaeth o faterion sy'n aml yn dechnegol iawn a chyda goblygiadau pwysig i'r rheiny sy'n berchnogion tir (p'un a yw'r tir yn gartref, yn fusnes neu'n fuddsoddiad), rheiny â diddordeb mewn tir (gan gynnwys darparwyr morgaeisi), a Chofrestrfa Tir EM. Felly mae'r prosiect hwn yn cynnwys adolygiad eang o Ddeddf 2002, gyda'r bwriad o ddiwygio'r rhannau y gellid eu gwella. Yn benodol, mae'n archwilio ystent sicrwydd teitl y Gofrestrfa Tir, cywiro ac addasu'r gofrestr, ac effaith twyll teitl cofrestredig. Mae hefyd yn ailarchwilio'r fframwaith cyfreithiol am droglwyddiad electronig.
- 3.18 Disgwylir cwblhau'r prosiect hwn yn ystod Haf 2018, pan fyddwn yn cyhoeddi ein hargymhellion diwygio'r gyfraith a Bil drafft.

## CAMYMDWYN MEWN SWYDD GYHOEDDUS

- 3.19 Mae camymddwyn mewn swydd gyhoeddus yn drosedd cyfraith cyffredin ond nid oes ddiffiniad cynhwysfawr. Gall y ddeddfryd uchaf am hyn olygu carchar am oes. Mae'r

---

<sup>8</sup> Deddf Yswiriant Prynwyr (Datgelu a Chynrychiolaeth) a'r Ddeddf Yswiriant 2015.

drosedd yn gofyn bod: swyddog gyhoeddus sy'n gweithredu fel y cyfryw; yn anwybyddu yr angen i wneud ei waith/gwaith yn fwriadol neu'n camymddwyn ei hun; i'r fath raddau sy'n arwain at gamdriniaeth o ymddiriedau'r cyhoedd yn y ddeiliad swydd; heb esgus neu gyfiawnhad rhesymol. Mae nifer o'r farn nad yw'r drosedd wedi'i diffinio'n gynhwysfawr ac mae wedi bod yn destun beirniadaeth yn ddiweddar gan y Llywodraeth, y Llys Apêl, y wasg ac acamedyddion cyfreithiol. Mae'r prosiect yn cynnwys adolygu'r gyfraith bresennol ac yn cynnig opsiynau ar gyfer ei diwygio a'i moderneiddio. Gwnaethom gyhoeddi ein papur ymgynghori ym mis Medi 2016 ac rydym yn disgwyl cyhoeddi adroddiad erbyn Haf 2018.

## CYFRAITH CYNLLUNIO YNG NGHYMRU

- 3.20 Mae'r Gyfraith Cynllunio yng Nghymru a Lloegr yn gymhleth yn ddiangen ac yn anodd i'w deall. Nid yw'r darpariaethau statudol wedi'u cyfuno ers Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ac mae'r datblygiad deddfwriaethol wedi bod yn dameidiog ers hynny. Mae datganoli wedi cymhlethu'r sefyllfa hyn i'r fath raddau lle mae gweithwyr proffesiynol cyfreithiol yn cael trafferth yn nodi'r adrannau hynny o'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru yn gywir. Gall fod yn anodd ac yn drafferthus i gyfarwyddo'r gyfraith cynllunio yng Nghymru, sy'n arwain at fwy o gostau i unigolion, busnesau ac awdurdodau cynllunio lleol.
- 3.21 Yn y prosiect hwn, a oedd yn rhan o 12<sup>eg</sup> Raglen diwygio'r gyfraith yn wreiddiol, rydym yn ystyried cwmpas Cod Cynllunio newydd i Gymru, ac yn benodol byddwn yn gwneud argymhellion ynglŷn â Bil Cynllunio newydd i Gymru er mwyn symleiddio, moderneiddio a chadarnhau'r gyfraith cynllunio sy'n briodol i Gymru. Mae hyn yn dilyn y gweithredoedd a argymhellwyd yn Adroddiad Comisiwn y Gyfraith ym Mehefin 2016 ar ffurf a hygyrchedd y gyfraith yng Nghymru, ac yn rhan allweddol o brosiect treialu ehangach Llywodraeth Cymru sy'n ystyried codeiddio'r gyfraith yng Nghymru.
- 3.22 Gwnaethom gyhoeddi papur cwmpasu ym mis Mehefin 2016. Ar ôl derbyn safbwyntiau rhanddeiliaid ar y cwestiynau a ofynwyd yn y papur, cyhoeddwyd ein Papur Ymgynghori ffurfiol *Cynllunio Cyfraith yng Nghymru* ym mis Tachwedd 2017. Bydd yr ymgynghoriad yn rhedeg tan fis Chwefror 2018. Ar ôl ystyried ymatebion y rhanddeiliaid, rydym yn bwriadu cynhyrchu adroddiad sy'n amlinellu ein hargymhellion terfynol yn haf 2018.

## DIOGELU DATA SWYDDOGOL

- 3.23 Yn 2015, fe wnaeth Swyddfa'r Cabinet, ar ran y Llywodraeth, ofyn i Gomisiwn y Gyfraith adolygu effeithiolrwydd darpariaethau'r gyfraith droseddwr sy'n diogelu gwybodaeth swyddogol am ddatgeliad anawdurdodedig. Dechreuodd ein gwaith yn 2016, ac rydym yn disgwyl cyhoeddi adroddiad erbyn haf 2018.
- 3.24 Bu'r ffocws ar Ddeddfau Cyfrinachau Swyddogol 1911 – 1989 yn bennaf. Rydym hefyd wedi dadansoddi y nifer o droseddau eraill (dros 120) sy'n bodoli i droseddu datgelu gwybodaeth heb awdurdod. Yn ogystal â hyn, rydym wedi archwilio'r materion a allai godi mewn achosion ymchwilio ac erlyn dan y Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol. Yn olaf, rydym wedi archwilio'r ddadl y gellir gwneud o blaid cyflwyno amddiffyniad lles y cyhoedd statudol. Gwnaethom gyhoeddi papur ymgynghori ym mis Chwefror 2017. Derbynion dros 1200 o ymatebion.

## GWARANTAU CHWILIO

- 3.25 Mae warant chwilio yn orchymyn llys sy'n awdurdodi swyddog yr heddlu neu swyddog arall i fynd i mewn i adeilad neu rywle arall a chwilio drwyddo am wrthrychau o'r fath a nodir yn y warant. Mae weithiau hefyd yn rhoi'r pŵer i atafaelu neu gymryd y gwrthrychau neu (pan mae'r gwrthrychau yn ddogfennau) i gymryd copïau neu detholiadau ohonynt. Ym mis Rhagfyr 2016, fe wnaeth y Swyddfa Gartref wahodd Comisiwn y Gyfraith i ymgymryd ag adolygiad i nodi a mynd i'r afael â phroblemau brys o ran y gyfraith yn llywodraethu warantau chwilio ac i gynhyrchu diwygiad fydd yn eglurhau ac yn rhesymoli'r gyfraith.
- 3.26 Rydym yn disgwyl cyhoeddi papur ymgynghori yn gynnar yn 2018.

## DEDFRYDU

- 3.27 Mae'r gyfraith ar ddedfrydu yn gymhleth ac yn anghyfartal iawn, ac yn berthnasol i dros miliwn o achosion unigol bob blwyddyn. Mae cymhlethdod y gyfraith bresennol yn arwain at nifer anghymesur o wallau a dedfrydau anghyfreithlon yn cael eu gorfodi, sy'n arwain at oedi, nifer o apeliadau ddiangen, a defnyddio arian y cyhoedd yn aneffeithlon.
- 3.28 Yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf, bu Comisiwn y Gyfraith yn gweithio i gynhyrchu Cod Dedfrydu i gyfuno gweithdrefn y gyfraith ddedfrydu, symleiddio'r gyfraith a darparu strwythur trefnus wrth ddiddymu darpariaethau sydd yn hen ac yn ddiangen. Ar 27 Orffennaf 2017, gwnaethom gyhoeddi ein Bil drafft ynghyd â phapur ymgynghori. Mae ymgynghori ar y Bil drafft yn agored tan 26 Ionawr 2018 ac rydym yn disgwyl cyhoeddi adroddiad a Bil terfynol yn Haf 2018.
- 3.29 Mae'r Cod Dedfrydu yn golygu cydgyfnerthu'r gyfraith gyredol, ac nid yw'n golygu unrhyw newidiadau arwyddocaol i'r polisi, heblaw am 'gael gwared' ar y ddeddfwriaeth ddedfrydu hanesyddol – symleiddio'r weithdrefn ddedfrydu drwy waredu'r angen i gyfeirio at fersiynau hanesyddol o deddfwriaeth y gyfraith ddedfrydu.

## EWYLLYSIAU

- 3.30 Mae ewyllys unigolyn yn ddogfen bwysig. Mae pobl yn defnyddio ewyllysiau i ddewis sut i ddsbarthu eu heiddo ar ôl marw, ac yn aml er mwyn cyfleu eu dewis o ran beth sy'n digwydd i'w cyrff, ac i apwyntio gwarchodwyr a fydd yn gofalu am eu plant. Er hynny, amcangyfrif bod 40% o oedolion heb baratoi ewyllys. Pan mae rhywun yn marw heb adael ewyllys, neu gydag ewyllys annilys, gallai achosi anawsterau i'r teulu, ac ychwanegu straen ar adeg profedigaeth.
- 3.31 Mae'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr sy'n llywodraethu ewyllysiau, i raddau helaeth yn dyddio o'r 19eg ganrif: y prif statud yw Deddf Ewyllysiau 1837. Mae'r gyfraith sy'n datgan pryd mae gan unigolyn y gallu i wneud ewyllys ("gallu ewyllysiol") yn cael ei gyflwyno yn yr achos *Banks v Goodfellow* 1870. Mae angen moderneiddio'r gyfraith ewyllysiau i ystyried y datblygiadau cymdeithasol, technolegol a meddygaeth ers Oes Fictoria.
- 3.32 Mae'r prosiect yn cynnwys adolygiad eang o'r gyfraith ewyllysiau, gyda'r materion canolog yn cynnwys gallu testamentaidd; y rheolau sy'n llywodraethu pryd mae ewyllys yn ddilys (fel gofynion ar gyfer llofnodi a thystio), a beth sy'n digwydd i'r rheolau hynny os na chânt eu dilyn yn gywir; diogelu ewyllyswyr agored i niwed; a gwneud

ewyllysiau'n ar ffurf electronig. Mae ein papur ymgynghori yn cynnig diwygiadau sydd gyda'r potensial i gefnogi rhyddid testamentaidd drwy sicrhau bod dymuniadau olaf pobl ynglŷn â beth sy'n digwydd i'w eiddo yn cael eu gwireddu, i ddiogelu'r unigolion hynny sy'n gwneud eu hewyllys yn erbyn twyll a dylanwad amhriodol ac i gynyddu eglurdeb a sicrwydd y gyfraith.

- 3.33 Fe wnaethom ymgynghori ar y pwnc hwn rhwng mis Gorffennaf a mis Tachwedd 2017, ac rydym yn disgwyl cwblhau'r prosiect yn hwyr yn 2018 neu yn gynnar yn 2019.

## RHAN 4 - PROSIECTAU ARFAETHEDIG PELLACH

### CYFLWYNIAD

- 4.1 Yn yr adran hon, rydym yn amlinellu nifer o gynigion nad yw Comisiwn y Gyfraith yn gallu eu gweithredu fel rhan o'r 13<sup>eg</sup> Raglen, ac yn esbonio'r rhesymau am hynny. Rydym yn credu bod gan y cynigion hyn gryfderau sylweddol fel prosiectau diwygio'r gyfraith. Os yw'r adnoddau ar gael, fe allai fod yn bosib i dderbyn un neu fwy o'r prosiectau hyn fel atgyfeiriadau o Weinidogion yn ystod y 13<sup>eg</sup> Raglen.

### TENANTIAETHAU AMAETHYDDOL

- 4.2 Byddai prosiect ar denantiaethau amaethyddol yn mynd i'r afael â'r feirniadaeth ynghylch Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 a Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995. Gallai ystyried cydbwysedd cyffredinol y drefn llywodraethu tenantiaethau amaethyddol rhwng landlordiaid a thenantiaid, gan gynnwys adolygu hawliau olynu a rheoli rhenti, neu gellir ei gyfyngu i broblemau mwy technegol (ac yn llai dadleuol). Hefyd, fe allai prosiect gwmpasu materion eiddo amaethyddol ehangach, fel argaeledd dulliau amgen o ddatys anghydfod yng nghyd destun eiddo amaethyddol; a'r diffyg diffiniad eglur o "amaethyddiaeth" yn y ddeddfwriaeth berthnasol.
- 4.3 Ar yr adeg y cwblhawyd y Rhaglen, roedd y Llywodraeth wrthi'n ystyried sut i fwrw ati gyda diwygio posibl o denantiaethau amaethyddol. Yn y dyfodol, gallwn ymgymryd â phrosiect i greu fframwaith cyfreithiol hyblyg sydd wedi'i foderneiddio ar gyfer lesddaliad amaethyddol.

### COFRESTRU GENEDIGAETH

- 4.4 Mae'r system cofrestru genedigaethau yng Nghymru a Lloegr, sy'n cael ei llywodraethu gan Ddeddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1953, yn deillio'n wreiddiol o'r ddeddfwriaeth cofrestru sifil ym 1836. Ar hyn o bryd, mae'r gyfraith yn caniatáu cofrestru dau riant (cyfreithiol yn hytrach na fiolegol neu genetig) yn unig, ac mae'n ofynnol i blant gael eu cofrestru naill ai fel gwryw neu benyw. Nid yw'r gofynion hyn wedi'u hadolygu yn sgil newidiadau eang o ran y mathau o deuluoedd a geir, gan gynnwys y nifer cynyddol o blant sy'n cael eu cenhedlu trwy'r ddefnydd o rhoddwyr gametau neu fenthyg croth (lle gallai'r rhieni cyfreithiol fod yn wahanol i'r rhieni biolegol) a'r cynydd o ran derbyn pobl ddeurywiol ac ymwybyddiaeth o'r rheiny sy'n cael eu geni'n rhyngrywiol.
- 4.5 Y tu hwnt i'r materion hyn, gallai prosiect ystyried y cwestiynau sylfaenol, sef pam ac er lles pwy y mae'r cofnod yn cael ei gadw, gan godi cwestiynau ehangach ynglŷn â'r gyfraith sy'n penderfynu pwy sy'n "rhiant" a goblygiadau cyfreithiol bod yn riant.
- 4.6 Er y byddai angen ystyried cwmpas a phwyslais prosiect ar gofrestru genedigaeth yn ofalus, roedd bron pob un o'r rhanddeilaid a ymatebodd i'n papur ymgynghori y 13<sup>eg</sup> Raglen o'r farn mai Comisiwn y Gyfraith yw'r corff priodol i ymgymryd â'r ddiwygio.
- 4.7 Credwn fod yna achos ar gyfer diwygio'r gyfraith ar gofrestru genedigaeth ond nid ydym o'r farn mai dyma'r amser i ddechrau ar brosiect o'r fath. Ac eithrio rhai, nid oedd y

rhanddeiliaid a fu'n siarad gyda ni yn nodi mater y gyfraith gofrestru genedigaethau fel un o'r cyfreithiau mwyaf pwysig i'w diwygio'n syth. Roedd adrannau'r Llywodraeth yn cytuno ar hyn. Ar ben hynny, rydym o'r farn nad yw natur a graddfa'r materion ynghylch diwygio'r gyfraith gofrestru genedigaethau wedi dod i'r amlwg yn llawn hyd yma Yn benodol, mae'r Llywodraeth yn adolygu Deddf Cydnabod Rhywedd 2004; ac mae'n bosib y bydd ein gwaith ar ddiwygio'r gyfraith fenthylg croth yn helpu i amlygu rhai o'r materion cofrestru genedigaethau mewn cyd-destun penodol, ac yn ymddwyn fel 'sbardun' ar gyfer nodi materion i ddatblygu mewn gwaith pellach.

- 4.8 Nid ydym, felly, wedi cynnwys prosiect ar gofrestru genedigaeth yn ein 13<sup>eg</sup> Raglen o ddiwygio'r gyfraith, ond disgwylwn y bydd datblygiadau yn y maes hwn yn golygu bod prosiect o'r fath yn wirioneddol bosib, naill ai i'w gynnwys yn ein Rhaglen nesaf neu fel atgyfeiriad Gweinidogol yn y dyfodol.

## LESDDALIAD MASNACHOL

- 4.9 Mae diffygion yn y gyfraith lesddaliad yn cael effaith negyddol ar 1.2 miliwn o fusnesau sydd angen mangre i weithredu ynddynt ledled Cymru a Lloegr, yn ogystal â landlord pob un o'r mangre busnes hyn. Mae hynny'n effeithio ar nifer o fusnesau domestig, ond hefyd ar gwmnïau dramor sy'n bwriadu sefydlu eu hunain yn y DU. Mae yna ddwy broblem pennaf:

- (1) Adnewyddu lesioedd: mae rhanddeiliaid o'r diwydiant drwyddo draw wedi beirniadu amryw agwedd o'r cynllun sy'n rhoi diogelwch deiliadaeth i denantiaid busnesau yn Neddf Landlord a Tenant 1954. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn gweithredu o blaid y tenantiaid, er ei bod wedi'i dylunio i'w diogelu; nid yw ychwaith yn rhoi budd i'r landlordiaid. Creuwyd y cynllun gweiddiol ar gyfer amodau economaidd gwahanol (ar ôl y rhyfel) ac mae bellach yn arwain at gostau diangen rhwng £20 – 40 miliwn (ar gyfer landlordiaid a thenantiaid fel ei gilydd) yn ogystal â cholli canoedd ar filoedd o ddiwrnodau masnachu manwerthol bob blwyddyn. Mae'n gosod rhwystrau diangen ar fusnesau sy'n dechrau yn y DU ac yn creu hyd at 1,400 fwy o achosion i'r llysoedd bob blwyddyn nag sydd angen.
- (2) Gwarantau ac aseiniadau: mae deddfwriaeth a bwriedir i warchod tenantiaid yn cael yr effaith cyferbyniol trwy rwystro neu cymhlethu trafodiadau cydsyniol safonol a rhai masnachol bwysig tenantiaid wrth aseinio'u lesioedd. Mae hyn yn arwain at gostau cynyddol werth cannoedd ar filoedd, a cholledion enfawr o ran gwerth rhydd-ddaliadau (roedd yr esiamplau a roddwyd yn cynnwys colledion ariannol werth mwy na £100 miliwn a £25 miliwn).

- 4.10 Cytunir bob y problemau hyn yn creu biwrocratiaeth ddiangen, yn atal twf economaidd a chynhyrchedd, ac yn golygu bod tenantiaid, landordiaid, awdurdodau lleol a'r llywodraeth ganolog yn dioddef colledion ariannol ataliadol sylweddol. Mae'r gyfraith yn creu ansicrwydd masnachol ac yn rhwystro trafodiadau masnachol dilys.

- 4.11 Mae gan brosiect diwygio'r gyfraith a fyddai'n mynd i'r afael â'r problemau hyn gefnogaeth traws-ddiwydianol eang a hir-dymor. Fodd bynnag, nid yw'r Llywodraeth yn cefnogi prosiect o'r fath ar hyn o bryd. Dywed yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ei bod yn cydnabod y gellir gwella ar y gyfraith lesddaliad masnachol, ond bod blaenoriaethau adrannol eraill yn golygu nad yw'n gallu cefnogi'r prosiect ar hyn o bryd.

O ganlyniad, ni fydd Comisiwn y Gyfraith yn gweithredu'r prosiect ar yr adeg hon. Er hynny, gellid ymgymryd â'r prosiect yn y dyfodol os yw'n cael ei gefnogi gan y Llywodraeth.

#### **DATGELIAD COFNODION TROSEDDOL**

- 4.12 Yn Adroddiad Comisiwn y Gyfraith fis Chwefror 2017 ar destun y mater cul o droseddau "na ellir eu hidlo", y prif argymhelliad oedd yr angen i ymgymryd ag adolygiad ehangach o gofnodion troseddol. Yn ein hadroddiad, nodwyd bod y system o "hidlo" yn wallus ac mae yna achos cryf ar gyfer ymgymryd ag adroddiad ehangach o'r system cofnodion troseddol yn ei chyfanrwydd oherwydd ei bod yn cynhyrchu canlyniadau anghyson ac anghymesur. Caiff nifer o apeliadau cyfunol eu hystyried gan y Goruchaf Lys yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd.
- 4.13 Yn y cyfamser, mae Adolygiad Lammy yn cynnig 'selio' rhai cofnodion troseddol ac yn amlygu'r "effaith arwyddocaol ehangach y mae'r gyfundrefn datganiad cofnodion troseddol gyfredol yn ei chael ar obeithion bobl o ddod o i hyd i swyddi ar ôl newid eu bywydau am y gorau".
- 4.14 Ar adeg cytuno'r Rhaglen derfynol, ni fu'n bosib i sicrhau cefnogaeth Protocol gan y Swyddfa Gartref Byddwn yn parhau i drafod yr opsiynau ar gyfer diwygio pellach gyda'r swyddogion perthnasol.

#### **TYSTIOLAETH A THECHNOLEG NEWYDD (TYSTIOLAETH CAMERÂU CORFF)**

- 4.15 Byddai'r prosiect hwn yn ceisio asesu a gwella'r graddau y mae'r llysoedd yn methu tynnu'u pwysau o ran datblygiadau technolegol newydd. Ar hyn o bryd, mae'r llysoedd yn gweithredu system sy'n methu a manteisio ar ddulliau cost effeithiol ac yn achosi pob math o anghyfleusterau diangen i thystion a diffynyddion. Byddai'r prosiect yn canolbwyntio'n benodol ar sut ddylai'r gyfraith addasu i'r cynydd yn y nifer o camerâu corff mae'r heddlu'n eu defnyddio. Mae'r cynydd yn y nifer o gamerâu corff mae'r heddlu'n eu defnyddio yn codi nifer o faterion yn ymwneud â sut y dylid storio, cyflwyno a chadw'r dystiolaeth a geir gan y camerâu hyn.
- 4.16 Mae'r prosiect hwn yn rhoi'r cyfle i gyflawni cydbwysedd sydd wir ei angen ar ddwy agwedd. Yn gyntaf, o ran rheoleiddio sut mae lluoedd yr heddlu yn defnyddio camerâu corff, ac yn ail, o ran sut y dylid cyflwyno'r dystiolaeth a geir o'u defnyddio mewn achosion troseddol.
- 4.17 Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi penderfynu nad yw hyn yn flaenoriaeth ar yr adeg hon ac wedi gwrthod rhoi cefnogaeth Protocol ar ei gyfer.

#### **MATERION YN Y DDEDDF CRWNERIAID**

- 4.18 Diwygiwyd y gyfraith crwneriaid yn sylweddol gyda Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 a wnaeth, ymhlith pethau eraill, sefydlu swyddfa'r Prif Crwner. Mae digon o amser wedi'i dreulio bellach i amlygu bylchau neu broblemau posib â'r gyfraith, ac mae'n bosib bod yr amser yn berffaith i'w adolygu.
- 4.19 Fe wnaeth ymatebwyr i'n hymgyngoriad nodi dau fater ar wahân. Fe wnaethant awgrymu y gallwn o bosib ystyried buddion: (1) ehangu awdurdodaeth crwneriaid i'w



caniatáu i ymchwilio'r pwnc marw-enedigaeth; a (2) dod â crwneriaid i mewn i'r llysoedd a'r gwasanaeth tribiwnlys, heb gael eu hapwyntio neu eu hariannu gan yr awdurdod lleol.

- 4.20 Yn ei adroddiad blynyddol<sup>9</sup> cyflwynodd y Prif Crwner nifer o faterion technegol eraill sydd angen eu diwygio yn ei farn ef. Cawsom ein hargyhoeddi bod y materion hyn gyda'i gilydd yn cyflwyno cais cymhellol ar gyfer adolygiad cyfyngedig o'r gyfraith crwneriaid.
- 4.21 Nid oedd yn bosib i drafod yr holl faterion a amlygwyd i ni gyda'r swyddogion yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder o fewn yr amser angenrheidiol er mwyn cynnwys y prosiect yn y Rhaglen. Byddwn yn ystyried ymhellach sut y gellir cynnal prosiect i adolygu'r gyfraith crwneriaid, a byddwn yn ceisio cael trafodaethau pellach gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y misoedd nesaf.

## SYMUD TŶ

- 4.22 Ceir anfodlonrwydd gyda chyflymdra, eglurder a sicrwydd y broses o symud tŷ o safbwynt pawb sy'n rhan o'r broses: prynwyr, gwerthwyr, trawsgludwyr, benthycwyr, asiantau tai a broceriaid morgeisi. Byddai prosiect arfaethedig yn ceisio moderneiddio'r broses o symud tŷ ac yn creu'r fframwaith cyfreithiol sy'n ystyried technolegau newydd a allai wneud y broses yn fwy effeithlon.
- 4.23 Mae'r broses o symud tŷ yn cael effaith arwyddocaol ar yr economi ac ar fywyd teuluol. Mae'n effeithio'r gwerthwyr a'r prynwyr ym mhob un o'r 1.2 miliwn o werthiannau tai yng Nghymru a Lloegr bob blwyddyn, yn ogystal â nifer o bobl eraill sy'n rhan o'r broses.
- 4.24 Awgrymodd y Gymdeithas Drawsgludo y dylwn ymgymryd â phrosiect yn ymwneud â symud tŷ yn ein 13<sup>eg</sup> Raglen. Mae angen ystyried amrywiaeth o faterion cyfreithiol ac eraill sydd ddim yn ymwneud â'r gyfraith. Ar yr adeg y cwblhawyd y Rhaglen, roedd yr Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol wedi cyhoeddi Cais am Dystiolaeth yn ymwneud â'r broses o symud tŷ.<sup>10</sup> O ganlyniad, nid oedd yn amser cywir i Gomisiwn y Gyfraith ymgymryd â'r gwaith hw. Unwaith mae canlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw'n hysbys, byddai'n bosib i'r Llywodraeth atgyfeirio prosiect atom sy'n ystyried y broses symud tŷ neu agweddau penodol o'r broses.

## CYFATHREBU AR-LEIN

- 4.25 Roedd yr awgrym i Gomisiwn y Gyfraith ddiwygio maes hwn y gyfraith yn un o'r syniadau prosiect newydd fwyaf poblogaidd y gwnaethom ymgynghori arni fel rhan o'r 13<sup>eg</sup> Raglen. Credwn fod poblogrwydd y prosiect hwn yn cael ei ysgogi gan y sylweddoliad bod troseddu o'r fath hwn yn niweidiol iawn i gydraddoldeb. Mae methiannau'r gyfraith yn y maes hwn yn effeithio menywod a grwpiau o leiafrifoedd yn fwy na grwpiau eraill Rydym wedi clywed bod methiannau'r gyfraith yn y maes hwn yn tansellio cydraddoldeb mewn sawl ffordd. Mae'r ofnau a rannwyd gyda ni yn cynnwys:

---

<sup>9</sup> Gweler: [https://www.judiciary.gov.uk/wp-content/uploads/2016/09/chief\\_coroner\\_report\\_2016\\_web2.pdf](https://www.judiciary.gov.uk/wp-content/uploads/2016/09/chief_coroner_report_2016_web2.pdf)

<sup>10</sup> *Gwella'r broses o brynu a gwerthu tai* (22 Hydref 2017), ar gael ar <https://www.gov.uk/government/consultations/improving-the-home-buying-and-selling-process-call-for-evidence>.



- (1) Pryder bod peidio â mynd i'r afael â chyfathrebu sarhaus ar-lein yn caniatáu i ymddygiad waethygu i droseddu sydd hyd yn oed yn fwy difrifol *all-lein* fel stelcio a cham-drin corfforol.
- (2) Pryder bod methiannau'r ddeddfwriaeth yn golygu bod ymateb yr heddlu yn aml wedi'i ddrysu ac yn minimol, sy'n golygu ei bod yn llai tebygol y bydd menywod yn adrodd troseddu.
- (3) Pryder bod cyfathrebiadau ar-lein sarhaus parhaus yn erbyn merched, plant a grwpiau o leiafrifoedd eraill yn "normaleiddio'r" fath ymddygiad, ac yn creu cymdeithas lle y gall cam-drin menywod a grwpiau o leiafrifoedd eraill ddigwydd heb gael ei herio mewn meysydd all-lein ychwaith.
- (4) Pryder bod y methiant i ddeddfu yn erbyn cyfathrebu ar-lein sarhaus yn cael effaith economaidd anghyfartal ar fenywod, sy'n teimlo'n anniogel ar y rhyngryd ac o bosib yn datgysylltu o'r amryw gyfleoedd proffesiynol mae'n ei gynnig.
- (5) Pryder bod cam-drin ar-lein ar raddfa fawr y mae menywod amlwg yn ei wynebu yn erydu bodlonwydd menywod i sefyll ar gyfer swyddogaeth cyhoeddus, neu gymryd swyddi uwch, ac yn lleihau amrywiaeth yn y gweithlu ar gyfer y genhedlaeth nesaf.

4.26 Mae natur hollbresennol cyfathrebu ar-lein yn golygu bod diwygio yn y maes hwn yn arbennig o bwysig, a bod y prosiect yn bwysig iawn i'r gymdeithas. Fe wnaeth y sylw ar ddiwygio'r gyfraith yn y maes hwn gynyddu pan ddechreuodd y Pwyllgor Dethol Materion Cartref ei ymholiad ar droseddau casineb a'i adroddiad sy'n cefnogi adolygu a diwygio yn y maes hwn.

4.27 Oherwydd natur traws dorri'r gwaith hwn o fewn y Llywodraeth, ni fu'n bosib i sicrhau cefnogaeth Protocol ar gyfer y prosiect hwn mewn pryd i gael ei gynnwys yn y Rhaglen. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Llywodraeth i asesu p'un a ellir cefnogi prosiect ac, os felly, ffocws posibl gwaith o'r fath.

## **AMDDIFFYN OEDOLION AGORED I NIWED**

4.28 Ar hyn o bryd, mae yna sawl ffordd i weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol a'r llysoedd amharu wrth geisio cymryd camau sefydlog i ddiogelu oedolion sydd a galluedd yn ôl dibenion Deddf Galluedd Meddyliol 2005 ond sydd rywsut yn agored i niwed, yn enwedig o ran cael eu gorfodi i wneud rywbeth sy'n groes i'w dymuniad gan drydydd parti. Er enghraifft, gosodir dyletswyddau statudol eglur ar awdurdodau lleol i ystyried sefyllfaoedd unigolion o'r fath (er enghraifft y dyletswydd i ymgymryd ag ymchwilio diogel dan y Ddeddf Gofal). Fodd bynnag, dywedir bod y pwerau sy'n bodoli i gymryd camau sefydlog i sicrhau eu lles yn anghyfartal ac yn anghyflawn. Mewn rhai achosion, mae'n rhaid i'r awdurdodau lleol a'r GIG ddibynu ar awdurdodaeth ymlynol yr Uchel Lys. Fodd bynnag, mae paramedrau'r awdurdodaeth ymlynol yn ansicr, a gall y broses fod yn gostus ac yn drafferthus.

4.29 Byddai prosiect sy'n edrych ar y maes hwn yn cynnig cyfle i adolygu'r gyfraith yn ymwneud ag oedolion agored i niwed neu mewn perygl (gan gynnwys yr awdurdodaeth ymlynol), yn nodi'r bylchau sydd o bosib angen ymateb ddeddfwriaethol ac yn gwneud argymhellion ar gyfer diwygio.

- 4.30 Fe wnaethom siarad â gweithwyr swyddogol yr Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Adran Iechyd, a oedd yn eglur nad oedd newid deddfwriaethol o'r fath yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth yn bresennol. Felly, fe benderfynodd y comisiynwyr na ddylid cynnwys y prosiect yn y 13<sup>eg</sup> Raglen. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau i'r gyfraith, a byddwn yn falch o ystyried y prosiect fel atgyfeiriad gweindogol yn y dyfodol.

## **HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS**

- 4.31 Mae'r ddeddfwriaeth gyfredol ar hawliau tramwy cyhoeddus yn ddryslyd. Mae nifer o wahanol fathau o hawliau tramwy wedi datblygu dros amser, ac mae'r hawliau hyn bellach yn cael eu gwasgaru dros nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth sydd wedi cael eu diwygio lawer. Mae mathau newydd o hawliau tramwy wedi cael eu himpio ar gynllun a ddatblygwyd o amgylch hawliau hanesyddol yn y gyfraith gyffredin, ac mae rhai ohonynt yn llai perthnasol heddiw neu nid ydynt bellach yn bodoli o gwbl.
- 4.32 Cynigiodd nifer o ymgynghorwyr y dylai Comisiwn y Gyfraith ymgymryd â phrosiect i ddiwygio a diweddu'r gyfraith sy'n ymwneud â rhai hawliau tramwy cyhoeddus, rhai di-gerbyd yn bennaf, gan egluro natur a maint yr hawliau hynny. Roedd ymgynghorwyr yn ymddiddori'n bennaf ag egluro ac hwyluso'r broses o ailgyfeirio neu ddiddymu hawliau tramwy.
- 4.33 Bûm yn trafod prosiect ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar gyfer adolygu'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r gweithdrefnau cyfredol ar gyfer creu, cofrestru, cofnodi, troi cwrs neu diddymu hawliau tramwy cyhoeddus a'r bwriad o naill ai ailddylunio'r gyfraith yn llwyr, neu ei hatgyfnerthu, ei chysoni a'i symleiddio.
- 4.34 Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn gweithio â rhanddeiliaid ar hyn o bryd i wella'r system ac nid oedd yn meddwl y byddai newid deddfwriaethol pellach yn briodol hyd oni chwblheir y broses hyn yn gyntaf. Yn sgil hyn, fe gytunodd y Comisiynwyr na ddylid cynnwys y prosiect hwn yn y 13<sup>eg</sup> Raglen. Er hynny, mae'n bosib y bydd yn briodol ar gyfer atgyfeiriad gweinidogol yn y dyfodol.

## **CYWIRO CAMGYMERIADAU MEWN GWEITHREDOEDD PENSIWN**

- 4.35 Mae'r mater o ddigyfion mewn buddion diffiniedig yn bwnc amserol iawn ac wedi'i atgyfeirio i Gomisiwn y Gyfraith gan y Sefydliad Pensiynwyr fel "gwirionedd llethol". Mae un problem sy'n dod i'r amlwg yn ymwneud â chywiro camgymeriadau yn nogfennaeth y cynllun pensiwn, lle mae camgymeriadau o'r fath yn arwain at or-ddweud buddion aelodau'n yn y ddogfen o gymharu a'u disgwyliadau.
- 4.36 Mae'r camgymeriadau hyn wedi arwain at gynydd sydyn mewn cyfreitha cymhleth, drud a gwerthfawr. Er enghraifft, roedd y swm oedd ar y fantol mewn tair achos a gafodd eu hadrodd yn ddiweddar werth oddeutu £245 miliwn. Pan mae gymaint o gynlluniau'n methu â bodloni'u hatebolrwydd, ddaw cwestiynau anodd i'r amlwg ynglŷn â p'un a ddylai'r aelodau dderbyn taliadau nad oeddent yn eu disgwyl, ac nad oeddent yn dibynnu arnynt, ar draul y gronfa pensiwn ac aelodau'r cynllun yn y dyfodol. Mae hyn yn arbennig o wir os byddai peidio â chywiro'r gweithredoedd yn golygu gwthio'r cynlluniau i'r Gronfa Diogelu Pensiynau, lle bydd yr atebolrwydd yn cael ei fodloni gan y cynlluniau sy'n weddill.

- 4.37 Diben y prosiect hwn fyddai i ystyried y gyfraith ar gywiro fel sy'n briodol i gynlluniau pensiynau, ynghyd â'r gyfraith ar weithredoedd sy'n cael eu gweithredu'n anghywir. Nid ydym wedi sicrhau cefnogaeth Protocol ar gyfer y prosiect hwn, ond byddwn yn parhau i adolygu maes y gyfraith hwn.

## **RHEOLEIDDIO MENTRAU CYMDEITHASOL**

- 4.38 Bu Comisiwn y Gyfraith yn ystyried rheoleiddio mentrau cymdeithasol fel rhan o brosiect diweddar ar bensïynau a buddsoddiadau cymdeithasol. Nododd broblemau gyda'r gyfundrefn rheoleiddio gyfredol, yn enwedig o ran rheoleiddio cwmnïau buddiannau cymunedol ("CICs") o'u cymharu â chymdeithasau budd cymunedol a chydweithredol (a elwir yn "cymdeithasau cofrestredig"). Ar hyn o bryd, caiff CICs eu rheoleiddio gan reolydd y CIC. Mewn cyferbyniad, mae cymdeithasau cofrestredig yn cael ei goruchwyllo gan ac wedi'u cofrestru â'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol ("FCA"), sydd â phwerau ehangach.
- 4.39 Mae rhanddeiliaid wedi dweud wrth Gomisiwn y Gyfraith bod y dull gweithredu tameidiog hwn yn arwain at greu polisiâu tameidiog ac nid yw'r cymdeithasau'n cael eu trin yn yr un modd ac o ganlyniad mae yna bosibilrwydd o arbitrais rheoliadol. Mae'n bosib y bydd hefyd yn golygu bod angen i fentrau cymdeithasol wneud mwy o waith papur na busnesau cyffredin.
- 4.40 Mae'r gyfundrefn rheoliadol gyfredol wedi'i diffinio mewn sawl darn o ddeddfwriaeth wahanol. Rydym mewn trafodaethau ag Adrannau'r Llywodraeth perthnasol ynglŷn â goblygiadau ddod a chwmnïau buddiannau cymunedol a rai cymdeithasau cofrestredig dan oruchwyliaeth un rheolydd lle bo'n briodol.
- 4.41 Ni fu'n bosib sicrhau cefnogaeth Protocol ar gyfer y prosiect hwn mewn amser i gael ei gynnwys yn y Rhaglen. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Llywodraeth i asesu p'un a gellir cefnogi prosiect ac, os felly, ystyried beth fyddai cwmpas gwaith o'r fath.

## **ADOLYGU PWERAU (ADRAN DROSEDDOL) Y LLYS APÊL**

- 4.42 Byddai'r prosiect yn ystyried y sylfeini sydd eu hangen ar gyfer camweinyddiad cyfiawnder, y pwerau i gyfnewid euogfarnau a therfynau dedfrydu. Mae'r Cofrestrydd Apeliadau Troseddwyr a'i swyddfa wedi cynnig nifer o awgrymiadau i ni ar gyfer sut y gallai'r prosesau fod yn fwy effeithlon
- 4.43 Mae yna botensial i archwilio diwygiadau i'r darpariaethau sy'n ymwneud ag apeliadau yn dedfrydau (gan y diffynnydd a'r Twrnai Cyffredinol fel ei gilydd dan y cynllun dedfrydu sy'n drugarog yn ddiangen). Mae yna broblemau posib oherwydd nid yw'r profion sy'n caniatáu gwneud apêl yn erbyn dedfryd (sef p'un a yw'r ddedfryd yn amlwg yn ormodol neu'n anghywir mewn egwyddor) wedi'u seilio'n statudol ond yn rhan o'r gyfraith gyffredin. Hefyd, mewn amgylchiadau o euogfarn mewn ail-dreial, mae Deddf 1968 yn gwahardd gosod dedfryd mwy dirifol na chafodd ei osod yn dilyn yr euogfarn wreiddiol, er gwaethaf y ffaith fod yr ail wrandawriad achos yn wrandawriad o'r newydd.
- 4.44 Mae'r prosiect hwn yn un pwysig iawn, a gallai greu arbedion sylweddol. Awgrymir bod y gyfraith gyfredol yn cael ei gymhwyso'n anghyson a gallai arwain at annhegwch. Hefyd, ceir anghysondebau damcaniaethol yn y naill gyfundrefn sy'n llywodraethu apeliadau yn erbyn euogfarn a dedfryd. Rhoddodd ymgynghorwyr sawl esiampl o hyn

wrth gyflwyno annhegwch gweithredol. Mae ystod ehangder ac amrywiaeth yr ymgynghorwyr o ymarferwyr i'r Pwyllgor Cyfiawnder Dethol yn arwydd o'r angen cydnabyddedig am adolygiad o'r fath.

- 4.45 Byddai angen archwilio addasrwydd y prawf "posibilrwydd rhesymol" dan adran 13(1) Deddf Apeliadau Troseddwyr 1995 ar gyfer atgyfeirio achos i'r Llys Apêl, sydd yn ôl rhai yn rhy gyfyngol, ac ystyried effaith y prawf ar y Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol ("CCRC") hefyd. Mae swyddofaeth y CCRC yn un pwysig ond gellir dadlau ei bod yn cael trafferth yn wireddu ei rôl yn y system apeliadau yn dilyn beirniadaethau niferus yn diweddar ynglŷn â'r penderfyniadau a wnaed a'r achosion a gyfeiriwyd i'r Llys Apêl dan Ddeddf 1995. Mae llwyth gwaith cynyddol y Llys Apêl – er gwaethaf lleihad yn y nifer o geisiadau i apelio euogfarn a dedfryd – ac mae'r Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol yn destun pryder hefyd, er mae'n rhaid rhoi blaenoriaeth i ddiddordebau cyrchu cywiriad cyfiawn.
- 4.46 Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi penderfynu nad yw hyn yn flaenoriaeth ar yr adeg hon ac wedi gwrthod rhoi cefnogaeth Protocol ar ei gyfer.

### **ADOLYGU RHAN 3 DEDDF PLANT 1989**

- 4.47 Mae Rhan 3 y Ddeddf Plant yn amlinellu pwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol tra'u bod yn rhoi cymorth i blant a'u teuluoedd. Mae hyn yn cynnwys adran 17 y Ddeddf, sy'n galluogi awdurdod lleol i ddiogelu a hybu lles plant yn eu hardal ac i hybu magwraeth plant o'r fath gan eu teuluoedd. Fodd bynnag, dywedir bod nifer o anawsterau o ran sut mae rhan 3 yn gweithio ar hyn o bryd. Er enghraifft, nid oes ddyletswydd datganedig i asesu plant a'u teuluoedd; mae'r diffiniadau cyfreithiol yn rhan 3 wedi dyddio ac yn wahaniaethol; mae'r defnydd o feini prawf cymhwysedd gan awdurdodau lleol y tu hwnt i fframwaith cyfreithiol yn eang; a sut mae rhan 3 yn rhyngweithio â darpariaethau deddfwriaethol eraill (fel Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabledd 1970) yn ansicr.
- 4.48 Fe wnaethom drafod y posibilrwydd o adolygu rhan 3 gyda swyddogion yr Adran Addysg er mwyn sicrhau ei bod yn gweithio'n effeithiol ac fel y'u bwriadwyd ar gyfer y plant y mae'r ddeddf yn gymwys iddynt. Penderfynodd yr Adran nad oeddent yn gallu ymroi i'r bwriad difrifol o ddiwygio'r gyfraith yn y maes hwn oherwydd y pwysau presennol ar amser deddfwriaethol. Fodd bynnag, pe bai'r sefyllfa deddfwriaethol yn newid, byddwn yn falch o ail-ystyried y prosiect.

### **GWARANNAU DROS HAWLIAU EIDDO DEALLUSOL A DATGELIAD CORFFORAETHOL O HAWLIAU EIDDO DEALLUSOL**

- 4.49 Yn y blynyddoedd diwethaf, mae gwerth hawliau eiddo deallusol wedi cynyddu, yn enwedig ar gyfer busnesau bach a chanolig ("BBaCh"). Fodd bynnag, er eu bod yn dal asedau gwerthfawr o'r fath, mae sawl BBaCh yn cael trafferth yn cael cyllid i dyfu eu busnes. I ryw raddau, mae hyn oherwydd bod hawliau eiddo deallusol yn eiddo bersonol na ellir ei dal yn gorfforol, felly mae benthyg arian yn eu herbyn yn cael ei ystyried yn anwarantedig. Mae ymarferion benthyg y prif ffrwd wedi'u sefydlu ar gyfer asedau sefydlog traddodiadol sy'n cynnwys egwyddorion sefydlog ar gyfer cofrestru, gwerthuso a blaenoriaethu.

- 4.50 Mae problemau gyda'r gyfraith gyfredol yn cynnwys materion gyda chofrestru hawliau eiddo deallusol, sy'n cynnwys goblygiadau yn ymwneud â blaenoriaethau diddordebau Er enghraifft, er ei fod yn bosib cofrestru sicrwydd yn erbyn hawliau eiddo deallusol, nid oes raid iddynt gael eu cofrestru er mwyn bod yn gymwys. Mae yna systemau cofrestru gwahanol – cofrestrau arbenigedd eiddo deallusol a chofrestr tŷ'r cwmnïau – ac mae'n bosib y bydd y sicrwydd am yr un hawl eiddo deallusol wedi'i gofrestru yn y ddau, gyda chanlyniadau anghyson. Hefyd, yn achos rhai mathau o Hawliau Eiddo Deallusol (fel hawliau dylunio a hawlfraint) nid oes unrhyw le i gofrestru gwarannau. Pwynt arall perthnasol yw p'un a ddylid cynnwys Hawliau Eiddo Deallusol mewn datgeliad corfforaethol, i roi llun gwell a mwyr cywir o asedau cwmnïau.
- 4.51 Pwrpas y prosiect hwn fyddai i gyrchu ac ymgynghori ar datriasiadau posibl i'r materion hyn, yn ogystal â chefnogi BBACh ac annog twf economaidd. Ar adeg gorffen y Rhaglen, nid yw'r prosiectau hyn wedi derbyn cefnogaeth Protocol.

### **GWEITHDREFNAU DYFARNIAD DIANNOD YN Y BROSES GYFLAFAREDDU**

- 4.52 Er bod Llundain yn parhau i fod yn leoliad dewisol y byd ar gyfer cyflafareddu masnachol rhyngwladol, mae yna bryder y gallai awdurdodaethau cystadleuol fel Hong Kong, Singapôr, Paris a Dubai "ddal i fyny" yn fuan. Mae Ddeddf Gyflafareddu 1996 yn 20 mlwydd oed bellach. Yn yr amser hwnnw, mae awdurdodaethau eraill wedi creu deddfwriaeth eu hunain, gyda darpariaethau sy'n adlewyrchu datblygiadau diweddar yn y maes hwn.
- 4.53 Pwrpas y prosiect hwn fyddai i ystyried diwygio Deddf Cymrodeddu 1996. Un maes diwygio posibl yw'r defnydd o weithdrefn arddull dyfarniad diannod statudol. Nid oes unrhyw bŵer datganedig ar gyfer gweithredu o'r fath yn y Ddeddf 1996. Gellir dadlau bod gan canolwyr y pŵer i orchymyn dyfarniad diannod eisoes. Fodd bynnag, dywedir wrthym fod pwerau o'r fath yn cael eu gweithredu'n anaml iawn, os o gwbl, oherwydd y risg y byddai dyfarniadau'n cael eu herio yn sgil torri prosesau priodol neu y gallai problemau gyda gorfodi rhyngwladol ddod i'r amlwg. Gallwn hefyd ystyried gynnwys ystod ehangach o bwerau diannod cyflafareddu yn y Ddeddf fel rhan o'r prosiect, er enghraifft i ddileu hawl neu amddiffyniad annheilwng.
- 4.54 Gall ddiwygiad o'r math gael effaith cynnil ond positif ar atyniad Llundain fel lleoliad cyflafareddu. Oherwydd bod y prosiect yn galw am gymeradwyaeth traws-bleidiol, nid oedd yn bosib sicrhau cymeradwyaeth Protocol mewn amser i ddatganiad y raglen yma. Gobeithiwn, fodd bynnag, y gall Weinidogion gwneud gyfeiriad i'r Comisiwn, er mwyn i ni ymgymryd waith yn y maes yma.

### **CYFLAFAREDDU'R GYFRAITH YMDDIRIEDOLAETH**

- 4.55 Mae cyfraith ymddiriedolaeth Lloegr yn sefydliad allforio cyfreithiol byd-eang pwysig ac mae Llundain yn ganolfan blaenllaw fyd-eang ar gyfer datrys anghydfodau, gan gynnwys cyflafareddu. Fodd bynnag, yn y man lle mae cyfraith ymddiriedolaeth a chyflafareddu'n cwrdd, mae'r awdurdodaeth hyn yn israddol i gystadleuwyr rhyngwladol. Ar hyn o bryd, nid yw cymal mewn offeryn ymddiriedolaeth sydd angen cyflafareddu anghydfodau yn rhwymedig yn gyfreithiol. Cafodd prosiect arfaethedig i ymchwilio sut y gellir newid Deddf Gyflafareddu 1996 i wneud cymalau'r ddeddf gyflafareddu'n gymwys, ei gynnig gan Bwyllgor y Gyfraith Ymddiriedolaeth a'i gefnogi

gan y Pwyllgor Cyfiawnder, Cyngor y Bar a Chymdeithas Ymarferwyr Ymddiriedolaethau ac Ystadau.

- 4.56 Yn ogystal â hyrwyddo enw da y DU fel canolfan ar gyfer datrys anghydfodau masnachol rhyngwladol, byddai cyflwyno system gyflafareddu'r gyfraith ymddiriedolaeth yn cynyddu cystadleurwydd diwydiant gwasanaethau'r gyfraith ymddiriedolaeth ac yn creu cangen newydd o fusnes yn y sector gyflafareddu. Mae'r buddion hyn wedi arwain awdurdodaethau eraill (gan gynnwys Guernsey, Singapôr a phump talaith yr Unol Daleithiau) i ddarparu ar gyfer cyflafareddu'r gyfraith ymddiriedolaeth.
- 4.57 Bydd y prosiect yn dylunio system gyflafareddu sy'n briodol i anghydfodau ymddiriedolaethau, ac felly'n mynd i'r afael â nifer o faterion cymhleth; er enghraifft cydymffurfio â'r gyfraith hawliau dynol, yr angen i ystyried unrhyw ddiddordebau CThEM yn achos trafodion cyflafareddu, a pha un a ddylai unrhyw newid yn y gyfraith ymestyn i ymddiriedolaethau o bob math (gan gynnwys ymddiriedolaethau elusennol).
- 4.58 Oherwydd bod y prosiect yn galw am gymeradwyaeth traws-bleidiol, nid oedd yn bosib sicrhau cymeradwyaeth Protocol mewn amser i ddatganiad y raglen yma. Gobeithiwn, fodd bynnag, y gall Weinidogion gwneud gyfeiriad i'r Comisiwn, er mwyn i ni ymgymryd waith yn y maes yma

#### **AMRYW DDIWYGIAD I'R GYFRAITH TROSEDD**

- 4.59 Byddai'r prosiect yn ystyried y broblem bosib o ordefnyddio'r system droseddau o ran ei effaith ar boblogaeth y carchardai a chwestiynau egwyddor ynglŷn â'r datganiad gwerthoedd y dylai'r gyfraith troseddau eu hadlewyrchu Yn achos goblygiadau Brexit, fe allai hyn brofi'n brosiect priodol ac amserol. Mae nifer o droseddau rheoliadol yn dod o ddeddfwriaeth yr UE a gellir defnyddio pwerau'r Bil Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer mecanwaith gweithredu Mae amseru'n bwysig yn yr achos hyn – mae'r pwerau sy'n cael eu drafftio ar hyn o bryd ar gael i'w defnyddio o fewn dwy flynedd o'r Dyddiad Ymadael yn Os bydd y prosiect yn cymryd lle'n bennaf ar ffurf Bil diddymu, mae'n bosib y bydd yn addas ar gyfer Gweithdrefn Arbennig Comisiwn y Gyfraith.
- 4.60 Byddai'r prosiect yn cynnwys ystyried p'un a ddylai rhai troseddau penodol gael eu gwaredu, oherwydd eu bod naill ai'n droseddau dwbl, neu gellir ymdrin â hwy drwy cosbau/sanctiynau sifil rheoliado. IByddai hefyd yn canfod i ba raddau y gellir ailosod rhai troseddau gydag un trosedd unigol.
- 4.61 Mae nifer y troseddau rheoliadol wedi parhau i gynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Er bod prinder astudiaethau mesurol cywir – mae James Chalmers a Fiona Leverick wedi nodi nad yw hyd yn oed yn bosib i nodi'r nifer o gyrrffau rheoliadol sydd gyda'r pwerau i greu troseddau o'r fath<sup>1112</sup> – mae ymchwil yn dangos y cafodd 1268 o droseddion sy'n gymwys i Gymru a Lloegr eu creu rhwng 2010-11 yn unig, ac roedd tua 60% o'r rhain yn gweithredu gorfodaethau'r Undeb Ewropeaidd a'r gosb gwaethaf ar gyfer 40% ohonynt yw dirwy.

---

<sup>11</sup> J Chalmers a F Leverick, 'Tracio Creadigiad Troseddiadau' [2013] Adolygiad Cyfraith Troseddol 543, ar 547.

<sup>12</sup> J Chalmers a F Leverick, 'Tracio Creadigiad Troseddiadau' [2013] Adolygiad Cyfraith Troseddol 543



- 4.62 Nid yw llawer o'r troseddau hyn yn cael eu herlyn (neu'n anaml iawn), sy'n gwanhau hyder y cyhoedd yn y system gyfiawnder droseddol Lle caiff troseddau eu herlyn, nid yw'r atebolrwydd troseddol yn briodol o ystyried lefel y niwed sy'n cael ei achosi gan y drosedd ac effaith yr euogfarn droseddol, y stigma sy'n dod o ganlyniad iddo a'r cosbau sydd ar gael ei lysoedd sifil yn y sffêr rheoliadol. Gall hyn hefyd wanhau ffydd y cyhoedd ym mhŵer y gosb droseddol Ar ben hyn, gall y nifer sylweddol o droseddau gyffelyb, a'u dedfrydau uchafswm gwahanol, arwain at ymatebion anghyson gan y system gyfiawnder droseddol i codau ymddygiadol tebyg.
- 4.63 Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi penderfynu nad yw hyn yn flaenoriaeth ar yr adeg yma ac wedi gwrthod rhoi cefnogaeth Protocol ar ei gyfer.

## PRIODASAU

- 4.64 Mae gan ddiwrnod priodas cwpl arwyddocâd emosiynol, diwylliannol, cymdeithasol a chyfreithiol dwfn. Yn aml caiff ei gyflwyno fel y diwrnod mwyaf pwysig ym mywyd unigolyn, ac o ganlyniad caiff ei ystyried fel diwrnod sydd angen lefel arbennig o ddathlu a gwario, ar ran y cwpl a'u ffrindiau a'u teuluoedd. I nifer o bobl, caiff briodas ei dathlu gyda defodau crefyddol arwyddocaol.
- 4.65 Mae priodas hefyd yn newid cyfreithiol ac mae'r wladwriaeth yn ymddiddori'n sylweddol ynddi. Gan fod priodas yn arwain at rwym cyfreithiol â chanlyniadau cyfreithiol penodol, dylai fod yn eglur pryd y mae wedi'i gyflawni. Mae angen i'r wladwriaeth graffu ar y gydnabyddiaeth gyfreithiol o seremoni i sicrhau bod y rheiny sy'n dymuno priodi yn rhydd yn gyfreithiol i wneud hynny ac i osgoi ffugio a phriodasau dan orfod.
- 4.66 Er gwaethaf bwysigrwydd y gyfraith, a'r nifer fawr o bobl mae'n ei heffeithio, nid yw ei strwythur wedi newid yn sylfaenol er 183 Mae'r gyfraith yn hen ffasiwn, ac nid yw'n briodol ar gyfer bywyd modern yng Nghymru a Lloegr. Hefyd, mae'r gyfraith yn gymhleth, anghyson ac yn ansicr yn ddiangen, yn dilyn ychwanegu cymalau iddi dros amser. Fe ofynodd yr Weinyddiaeth Gyfiawnder i ni ymgymryd ag adolygiad cwmpasu i nodi'r problemau y byddai angen i ddiwygiad cyfreithiol fynd i'r afael â hwy. Fe wnaethom orffen ein papur cwmpasu, *Priodi*, yn 2015, bod y gyfraith yn rhy gyfyngol ac yn ddyddiedig ac nid yw'n bodloni cymdeithas amrywiol y byd heddiw, a taw'r ateb yw diwygiad cyflawn.
- 4.67 Fe ddywedodd yr Weinyddiaeth Gyfiawnder wrthym nad yw'r Llywodraeth yn cefnogi prosiect i ddatblygu argymhellion ar gyfer diwygio'r gyfraith priodasau ar hyn o b Esboniodd y Gweinidog Gwladol bod blaenoriaeth ar ddiwygiadau sy'n mynd i'r afael â'r cynydd mewn achosion cyfreithiol cyhoeddus a theuluol preifat yn rhoi pwysau ar y system gyfiawnder ar hyn o bryd. O ganlyniad, ni fydd Comisiwn y Gyfraith yn cynnal prosiect priodasau ar yr adeg hon. Er hynny, rydym yn croesawu addewid y Weiniidog i barhau i adolygu'r bosibilrwydd o gynnal gwaith pellach i Gomisiwn y Gyfraith.

(llofnodwyd)

Y Gwir Anrhydeddus  
Arglwydd Ustus David  
Bean, Cadeirydd  
Yr Athro Nick Hopkins  
Stephen Lewis  
Yr Athro David Ormerod

Phil Golding, Prif Weithredwr

13 o Ragfyr 2017



## ATODIAD 1 - RHESTR O YMGYNGOREION

Sylwch nad yw'r rhestr yma yn cynnwys y rhai a wnaeth gysylltu â ni yn uniongyrchol, er enghraifft drwy e-bost. Mae hyn oherwydd bod ein holiadur ymgynghori yn cynnwys rhybudd i ddweud ein bod yn ymdrin â dogfennau ymgynghori fel dogfennau cyhoeddus at ddibenion ceisiadau rhyddid gwybodaeth a chyhoeddiadau (oni bai bod ymgynghorwyr yn gofyn i ni beidio).

Rydym yn ddiolchgar i bawb a gyfrannodd at ein hymynghoriad ac yn ystyried yr holl ymatebion, waeth beth fo'r fformat y maent yn cael eu hanfon atom.

[I'W GWBLHAU AR WAHÂN MEWN DWY GOLOFN]